

DATGANIAD CYFRIFON 2021/22

Cyngor Sir Ddinbych

Datganiad Cyfrifon

2021/22

Cyflwyniad	1
Adran 1 - Adroddiad Naratif	4
Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau	13
Adran 3 - Datganiadau Ariannol A Nodiadau Ynglŷn Â'r Cyfrifon	14
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	15
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	19
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn	21
Y Fantolen	23
Datganiad Llif Arian	25
Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon	26
Adran 4 - Datganiadau Atodol	99
Adran 5 - Cyfrifon Grŵp	104
Adran 6 - Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych	119
Adran 7 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol	124
Adran 8 - Geirfa	154

Cyflwyniad

Awdurdod unedol yng Nghymru yw Cyngor Sir Ddinbych gyda phoblogaeth o tua 96,000 Mae Sir Ddinbych yn cynnwys cyrchfannau gwyliau'r Rhyl a Phrestatyn ar hyd arfordir gogledd Cymru, Dyffryn Clwyd, Corwen yn ne'r Sir a thref Llangollen, sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid. Mae hefyd yn cynnwys trefi castellog hanesyddol Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun, a dinas gadeiriol fechan Llanellwyr. Mae 47 o gynghorwyr etholedig i gynrychioli amrywiol wardiau'r sir. Mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 4,200 o staff.

Daeth y Cyngor Sir i fodolaeth ym mis Ebrill 1996 ac mae'n gyfrifol am ystod fawr o wasanaethau gan gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, priffyrdd, casglu a gwaredu gwastraff, cynllunio, datblygu economaidd, twristiaeth, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a llawer yn rhagor.

Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac sy'n dangos ar be y gwariodd y Cyngor ei arian. Mae'r Adroddiad Naratif yn rhoi cipolwg ar gyllid a gwariant y Cyngor yn ystod y flwyddyn, y materion a'r pwysau ariannol allweddol ac edrych i'r blynyddoedd i ddod.

Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyfrifon, byddai croeso i chi gysylltu â'r Prif Swyddog Cyllid, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ. Yn ogystal, mae gennych hawl gyfreithiol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebiri argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac yn llyfrgelloedd Sir Ddinbych.

Datganiad Cyfrifon

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn yn unol â gofynion cyfreithiol, safonau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Cod) yn y Deyrnas Unedig, gyda'r amcanion canlynol:

- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol.
- Rhoi gwybodaeth ynglŷn â chyllid y Cyngor i ddefnyddwyr gwasanaeth, etholwyr, trethdalwyr busnes, trethdalwyr lleol, Cynghorwyr a phartion eraill sydd â diddordeb.
- Dangos stiwardiaeth o arian cyhoeddus.

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DI&GC) a'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn cynnwys dadansoddiad cychrannol yn seiliedig ar sut mae'r Cyngor wedi ei strwythuro, yn gweithredu, yn monitro ac yn rheoli perfformiad ariannol.

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

Adran 1 – Adroddiad Naratif

Mae'r Adroddiad hwn gan y Prif Swyddog Cyllid yn darparu crynodeb o weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn.

Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau

Mae hyn yn amlinellu dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyllid wrth baratoi'r cyfrifon, a chyfrifoldebau'r Cyngor wrth gadw at y rheoliadau perthnasol.

Adran 3 – Prif Ddatganiadau Ariannol a Nodiadau ynglŷn â'r Cyfrifon

Mae Cod 2021 yn mynnu fod cyfrifon awdurdod lleol yn cydymffurfio gyda'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r prif ddatganiadau ariannol yn cynnwys:

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu

Mae hyn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio ac ariannu o adnoddau mewn cymhariaeth â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cyfrif hwn yn grynodeb o'r arian a gynhyrchwyd ac a wariwyd wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth reoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys pob gwariant beunyddiol ac incwm perthynol ar sail gronïadol, ynghyd â thrafodion sy'n mesur gwerth yr asedau a dreuliwyd mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn dangos amcanestyniad o werth y buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogieion yn ystod y flwyddyn.

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae hyn yn dangos yr addasiadau a wnaed i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i gyflawni gofynion cyfrifeg statudol, i'w alinio gyda'r sail gyfrifyddol y seiliwyd y lefel Treth y Cyngor am y flwyddyn arni.

Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn rhoi ciplun o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2022. Mae'n amlinellu gwerth yr eitemau y mae'n berchen arnynt (asedau) a gwerth yr hyn sy'n ddyledus i eraill (ymrwymadau). Mae'n ymgorffori holl gyllid y Cyngor, o ran cyfalaf a refeniw.

Datganiad Llif Arian

Mae hyn yn rhoi crynodeb ynglŷn ag arian parod y Cyngor a thrafodion sy'n gyfwerth ag arian parod dros y flwyddyn, gan ddangos yr union arian parod a dderbyniwyd ac a wariwyd a'r newid a fu yn sefyllfa'r Cyngor o safbwynt arian parod. Cyflwynir y datganiad gan ddefnyddio'r dull anuniongyrchol.

Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon

Darperir nodiadau eglurhaol ar ôl y prif ddatganiadau ariannol ac ar ôl y datganiadau ariannol atodol. Mae'r nodiadau yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i roi cymorth er mwyn deall y cyfrifon.

Adran 4 - Datganiadau Ariannol Atodol a Nodiadau

Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Mae gofyn ar i Gynghorau gyfrifo costau gwasanaeth tai'r Cyngor ar wahân trwy gyfrwng Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau ym

Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r cyfrif hwn yn dangos ymhle y caiff arian ei wario'n cynnal ac yn rheoli tai'r Cyngor a sut y cyfarfyddir â'r costau hyn gyda rhenti ac incwm arall. Mae'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau ym Malansau'r Cyfrif Refeniw Tai yn dod â'r holl symudiadau o fewn cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai ynghyd.

Adran 5 - Cyfrifon Grŵp

Mae Cyfrifon Grŵp yn cyfuno datganiadau ariannol y Cyngor ei hun â'i ddiddordebau materol mewn is-gwmnïau, partneriaethau cyswllt a/neu fentrau ar y cyd. Mae Cyfrifon Grŵp wedi'u paratoi i gynnwys Hamdden Sir Ddinbych Cyf., a ddaeth yn weithredol ym mis Ebrill 2020.

Adran 6 - Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Mae'r cyfrifon hyn yn amodol ar archwiliad allanol annibynnol gan archwilydd a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'r adroddiad hwnnw wedi ei gynnwys yn yr adran hon.

Adran 7 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae hyn yn amlinellu dull gweithredu'r Cyngor wrth sicrhau ei fod yn cynnal system effeithiol o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol.

Adran 8 - Geirfa

Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr o rai o'r diffiniadau a fabwysiedir at ddiben cyfrifon a gwblheir yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Adran 1 - Adroddiad Naratif

1.1 Adolygiad Y Flwyddyn – Gwariant Refeniw

Mae'r Cyngor yn gosod cyllideb refeniw pob blwyddyn. Mae hon yn gyllideb ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn y flwyddyn. Mae'n cael ei thalu trwy ddefnyddwyr gwasanaeth, Grantiau Llywodraeth Cymru a threthdalwyr Treth y Cyngor ac Ardrethi Busnes. Y gyllideb gwariant gros ar gyfer 2021/22 oedd £317.1m.

Roedd cyllideb 2021/22 yn gofyn am ddod o hyd i a chytuno ar arbedion ac arbedion effeithlonrwydd o £2.666m fel y nodir isod:

- Ffioedd a Thaliadau wedi'u chwyddo yn unol â pholisi y cytunwyd arno (£0.462m)
- Arbedion ysgolion o 1% (£0.733m)
- Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau (£1.471m)

Roedd yr arbedion corfforaethol eisoes wedi'u cyflawni ac mae arbedion yr ysgolion yn cael eu dirprwyo i'r cyrff llywodraethu i'w monitro a'u cyflawni. Cafodd holl arbedion y gwasanaethau eu cyflawni yn y flwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi nodi arbedion o £0.754m yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ac mae rhagolygon ar gyfer y dyfodol, er eu bod yn amhendant, yn dangos y bydd anghen parhau i nodi arbedion blynyddol sylweddol wrth i chwyddiant barhau i fod yn fwy na'r cynnydd cyllid.

Y sefyllfa derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaethau ar ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant net o £2.399m (1.7% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y meysydd hynny). Gan ystyried cyllid ac ysgolion, roedd yr amrywiant ar gyfanswm y gyllideb yn danwariant o £9.177m (4.2% o'r gyllideb refeniw net). Mae'r tanwariant net yn cynnwys £6.778m o danwariant mewn ysgolion, sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar wahân.

Yn ystod mis Mawrth 2022, cyhoeddodd LIC gynnydd un-tro o £60m yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2021/22 (roedd cyfran Cyngor Sir Ddinbych yn £1.994m). Er nad yw wedi'i glustnodi'n dechnegol, mae LIC wedi gofyn i £10m (£0.332m ar gyfer CSDd) gael ei ddefnyddio i ariannu gwelliannau i drefniadau teithio gweithwyr gofal, gan gynnwys cerbydau trydan. Mae cyfran CSDd wedi'i rhoi mewn cronfa benodol wrth gefn at y diben hwn. Rhoddwyd y swm sy'n weddill o £1.662m yn y Gronfa Lliniaru Cyllideb wrth Gefn er mwyn helpu'r Cyngor i ddelio â phwysau chwyddiant. Arweiniodd hyn, ynghyd â chynnydd bychan yn Enillion Treth y Cyngor (£0.314m), at gynydd annisgwyl mewn cyllid o £2.308m.

Croesewir bod Strategaeth Adfer Ariannol Covid o weithio mewn partneriaeth â LIC wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer ymateb parhaus y Cyngor yn ystod 2021/22. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bydd y cymorth ariannol uniongyrchol a dderbyniwyd gan LIC wedi bod yn fwy na £15m sy'n dyst i werth gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol a LIC. Mae hefyd yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa iach i wynebu'r heriau ariannol sydd o'n blaenau heb os.

Er bod balansau ysgolion wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol hon, mae hyn yn bennaf o ganlyniad i dderbyn cyllid unigol, a bydd angen monitro sefyllfa ysgolion yn ofalus wrth fynd ymlaen. Hyd yn oed yn ystod cyfnod o gymorth ariannol ychwanegol gan LIC mae rhai

gwasanaethau wedi parhau i weld pwysau yn ystod y flwyddyn, ac mae nifer o rai eraill yn rhagweld pwysau wrth symud ymlaen i 2022/23. Mae hyn ochr yn ochr â'r pwysau y mae'r Cyngor yn ei wynebu ar gostau ar draws yr holl wasanaethau. Mae gan y Cyngor Broses Gyllidebol gadarn ar waith a fydd yn helpu i nodi'r pwysau hyn a nodi dulliau ariannu a fy yn helpu i gynnal iechyd ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen.

Cymeradwywyd ceisiadau gan wasanaethau i ddwyn ymlaen gwerth £1.122m o danwariant gan y Cabinet ym mis Mai. Defnyddir yr arian i helpu gwasanaethau i ddal i fyny â phrosiectau a buddsoddiadau a ohiriwyd ac i helpu i liniaru pwysau hysbys.

Balansau, Darpariaethau a Chronfeydd Wrth Gefn

Y cynnydd net mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o fewn cyfrifon yw £16.4m (gweler Nodyn 20 am fanylion). Mae'r symudiad yn cynnwys balansau'r ysgol a chronfeydd wrth gefn sydd wedi'u cyllidebu a'u cynllunio at ddibenion fel ariannu'r Cynllun Cyfalaf, y Cynllun Corfforaethol presennol a lliniaru'r gyllideb yn y dyfodol.

Mae balansau cyffredinol y Cyngor bellach yn £7.1m. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr ei fod yn cadw digon o arian yn y balansau hyn er mwyn sicrhau y gall ymdrin ag unrhyw broblemau annisgwyl y mae'n eu hwynebu.

Sut Rydym yn adrodd ein Cyllideb

Bob mis rhoddir adroddiad cyllideb i Gabinet y Cyngor (grŵp o Gynghorwyr sy'n gwneud nifer o benderfyniadau ar ran y Cyngor), sy'n esbonio sut mae gwasanaethau yn gwario eu harian o'i gymharu â'u cyllideb. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol (sy'n cael ei alw'n adroddiad alldro) yn dangos y sefyllfa diwedd blwyddyn.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu ei Ddatganiad Cyfrifon mewn modd sy'n ateb gofynion adroddiadau ariannol y DU a rhyngwladol. Mae natur y gofynion hyn yn hynod gymhleth a thechnegol. Mae hyn yn golygu bod nifer o addasiadau cyfrifo yn ofynnol yn ei adroddiadau cyllideb arferol i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cynhyrchu ei gyfrifon. Mae'r tabl canlynol yn dangos y sefyllfa derfynol a adroddwyd i Gynghorwyr. O fewn y Nodiadau ynglŷn â'r Cyfrifon mae esboniad o'r addasiadau rhwng sefyllfa referniw yn yr adroddiad terfynol a'r symiau a adroddwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae manylion pellach am berfformiad ariannol gwasanaethau i'w gweld yn yr Adroddiad Alldro Terfynol a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 7 Mehefin 2022.

[Cyngor Sir Ddinbych - Cabinet, Dydd Mawrth, 7fed Mehefin 2022, 10.00yb](#)

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa refeniw derfynol a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwn:

	Adroddiad Canlyniad Refeniw Terfynol £000
Cyllidebau Gwasanaeth a Chorfforaethol	
Gwella Busnes a Moderneiddio	4,639
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	2,298
Hamdden - ADM	3,404
Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau & Amgylcheddol	16,762
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	10,041
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	40,013
Cyllid & Eiddo	4,302
Addysg a Gwasanaethau Plant	17,715
Cymunedau & Chwsmeriaid	3,156
Ysgolion	69,708
Corfforaethol	15,028
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth a Chorfforaethol	187,066
Arall	
Arian Cyfalaf/ Llog Buddsoddi	15,515
Lefiau	5,060
Cyfanswm Gwariant (heb gynnwys y CRT)	207,641
Llai Cyllid	(216,818)
Alldro yn Ymwneud â Chyllidebau Gwasanaeth ac Ysgolion	(9,177)
Cyllid Ychwanegol a Dderbyniwyd	(2,308)
Canlyniad Terfynol	(11,485)
Dyrannwyd fel a ganlyn:	
Balansau wedi'u Clustnodi – Gwasanaethau	(1,122)
Balansau Ysgolion	(6,778)
Trosglwyddo i Gronfa wrth Gefn Lliniaru'r Gyllideb.	(3,253)
Trosglwyddo i Warchodfa Cludiant Gofal Cartref	(332)
Cyfanswm	(11,485)

1.2 Adolygiad Y Flwyddyn – Gwariant Cyfalaf

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn gwario arian ar eitemau a fydd yn bodoli am amser hir megis tir, adeiladau, ffyrdd, cerbydau ac offer. Gelwir yr eitemau hyn yn asedau a bydd y Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau am flynyddoedd i ddod. Gelwir gwariant ar yr asedau hyn yn wariant cyfalaf.

Mae'r tabl canlynol yn dangos faint wariodd y Cyngor ar ei asedau fesul bloc gwasanaeth yn 2021/22 a sut yr ariannwyd y gwariant:

Gwariant	£000
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	181
Cyllid ac Eiddo	4,262
Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol	18,392
Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwledig	5,223
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	1,729
Gwella Busnes a Moderneiddio	868
Addysg a Gwasanaethau Plant	4,889
Cyfrif Refeniw Tai	15,715
Cyfanswm	51,259
Ariannu	
Grantiau a Chyfraniadau	25,345
Benthyca â Chymorth	0
Benthyca Darbodus	15,202
Derbyniadau Cyfalaf	5,463
Gwariant Cyfalaf sy'n cael ei dalu o Refeniw	5,249
Cyfanswm	51,259

Mae gwariant ar brosiectau mawr a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Prosiect	Disgrifiad	2021/22 £000
Llangollen	Gwaith Effeithlonrwydd/Lleihau Ynni - Ysgol Dinas Brân	220
Llangollen	Prosiect Llangollen 2020 - Gwelliannau i Ganol y Dref	720
Castell Boddelwyddan	Ildio Prydles Ymddiriedolaeth	476
Rhyl	Ailddatblygu Adeiladau'r Frenhines	1,682
Rhyl	Porth Canol Tref y Rhyl - Caffael 123-131 Stryd Fawr, Y Rhyl	292
Dinbych	127-129 Stryd Fawr - Grant LIC ar gyfer ailddatblygu eiddo	250
Rhyl	Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl	5,138
Rhyl Canolog	Cynllun Amddiffyn yr Arfordir - Dyluniad	1,270
Prestatyn Canolog	Cynllun Amddiffyn yr Arfordir - Dyluniad	730
Prestatyn/Dyserth	Gwelliannau i'r Llwybr	214
Casglu Gwastraff	Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd	4,945
Rhuthun, Llys Awelon Gofal Ychwanegol	Caffael Llety	433
Dinbych, Awel y Dyffryn Gofal Ychwanegol	Caffael Llety	237
Tai Cyngor	Gwelliannau Mawr / Caffaeliadau	12,653

1.3 Materion Eraill

Pensiynau

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn aelod o Gronfa Bensiynau Clwyd.

Mae Safonau Cyfrifo Rhyngwladol yn mynnu bod cyngorau yn cyfrif cost hawliadau pensiwn a enillwyd yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na chost y cyfraniadau a delir i mewn i'r gronfa bensiynau. Mae'n rhaid i'r gronfa bensiynau gyfrifo faint o arian a fyddai'n ddyledus pe bai'r holl aelodau unigol yn cael hawl i dderbyn eu pensiwn yn syth. Yna mae'n rhaid iddo gyfrifo faint o arian sydd ganddo mewn buddsoddiadau. Mae enillion ar fuddsoddiadau yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd economaidd cenedlaethol a rhyngwladol ehangach, ac oherwydd y ffaith bod pobl yn byw yn hirach yn gyffredinol, mae gan y gronfa bensiynau lai o fuddsoddiadau na'r swm damcaniaethol y byddai'n rhaid iddo ei dalu allan. Gelwir hwn yn ddiffyg. Er ei bod yn annhebygol iawn y

byddai'n rhaid i'r Cyngor orfod talu'r arian hwn allan, mae'n rhaid iddo ddangos y diffyg hwn yn ei gyfrifon. Mae'r Gronfa Bensiynau yn destun prisiad bob tair blynedd ac mae'r amcangyfrifon yn y cyfrifon yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2019. Mae'r nodiadau ynglŷn â'r cyfrifon yn dangos manylion pellach.

Cynllun Busnes y Stoc Dai

Mae'r Cyngor yn berchen ar 3,313 o anheddau'r cyngor – a elwir yn stoc dai. Ers 2005 mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn gwella ei stoc dai a chyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2014. Mae rhan o'r buddsoddiad hwn wedi cael ei ariannu trwy fenthycia ac mae gan y Cyngor Gynllun Busnes Stoc Dai 30 mlynedd, sy'n helpu i sicrhau bod buddsoddiad yn nhai'r Cyngor yn dal i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae Cynllun Busnes y Stoc Dai yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan Gabinet y Cyngor bob blwyddyn ac mae'n dal yn gryf yn ariannol. Mae Cynllun Busnes diweddaraf y Stoc Dai yn caniatáu buddsoddiad o £24.4m mewn stoc newydd a £33.3m mewn gwelliannau a gynlluniwyd dros y pedair blynedd nesaf.

Benthyca a Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor wedi parhau â'i strategaeth o gadw balansau benthyca a buddsoddiadau mor isel â phosibl yn 2021/22 drwy ddefnyddio gwargedion arian parod dros dro i gynnal lefel ddigonol o arian parod. Mae balansau buddsoddi yn dal i gael eu monitro gyda'r nod o gynnal lefelau digonol i gyflawni gofynion llif arian y Cyngor. Cyflwynir adroddiadau ar sefyllfa trysorlys y Cyngor i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol trwy gydol y flwyddyn. Roedd gan y Cyngor ddyled heb ei chasglu o £234.7m ar 31 Mawrth 2022, roedd y balansau buddsoddiadau yn £28.7m ac roedd £4.5m arall mewn cyfrif banc sy'n hygyrch ar unwaith.

Swyddogaethau Statudol

Ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn swyddogaethau statudol y Cyngor yn ystod 2021/22.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Fel aelod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, mae gofyn i'r Cyngor ddangos ei gyfran (12.5%) o falansau, incwm a gwariant y Cyd-Bwyllgor ar Fantolen a Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor. Cyfran y Cyngor o'r balansau sydd wedi'u cynnwys yn Natganiadau Ariannol 2021/22 yw £48k, (£92k) yn 2020/21. Ceir rhagor o fanylion am Ddatganiad Cyfrifon BUEGC yma:

[Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru](#)

Cyd-Bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Fel aelod o AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy mae gofyn i'r Cyngor ddangos ei gyfran (80%) o falansau, incwm a gwariant y Cyd-Bwyllgor ar Fantolen a Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor. Cyfran y Cyngor o'r balansau ar y 31 Mawrth 2022 yw (£337k), (£523k) yn 2020/21. Ceir rhagor o fanylion am Ddatganiad Cyfrifon yma:

[Cyd-Bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy](#)

Y Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Perfformiad

Bob blwyddyn rydym yn adolygu ein perfformiad i werthuso ein llwyddiant wrth ddarparu buddiannau ar gyfer ein cymunedau, ac nid yw hynny wedi newid eleni. 2021 i 2022 yw'r pumed flwyddyn yn ein Cynllun Corfforaethol pum mlynedd uchelgeisiol sy'n ceisio adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd, ond hefyd mynd i'r afael â'r heriau a'r risgiau go iawn sy'n wynebu ein cymunedau. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth â phreswylwyr, partneriaid o'r sector cyhoeddus, cydweithwyr o'r sector dielw a'r sector preifat y gellir darparu'r Cynllun; ac mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso ein cynnydd hyd yma. Mae hefyd, am y tro cyntaf, yn ceisio rhoi ciplun o berfformiad y cyngor yn erbyn agweddau allweddol o 'lechydd Corfforaethol', mewn ymateb i ddeddf newydd sef Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn gosod allan ein blaenoriaethau uchelgeisiol ond cyraeddadwy am gyfnod o bum mlynedd o 2017 i 2022. Mae rhai o'r blaenoriaethau hyn wedi derbyn buddsoddiad cyfalaf sylweddol ac eraill wedi cael cyllid refeniw, ac mae'n bosibl y caiff eraill eu darparu trwy newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau a thargedu buddsoddiad presennol heb unrhyw gost ychwanegol. Hyd yma mae £4.946m o gyllid refeniw uniongyrchol y Cyngor ar gael tan ddiwedd Mawrth 2022, ac mae £1.326m o hwnnw yn ymrwymiad cyllideb sylfaenol parhaus. Ni fyddai'n rhaid i'r Cyngor ddarparu'r holl gyllid angenrheidiol ei hun. Mae grantiau gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio i helpu i ariannu'r gwaith a gynlluniwyd i wella ein hysgolion a'n hamddiffynfeydd llifogydd. Rydym hefyd wedi defnyddio incwm o renti tai i helpu i ariannu tai cyngor newydd.

Crynodeb o sefyllfa ein Cynllun Corfforaethol:

Mae'r gwerthusiad mesurau ar gyfer pob blaenoriaeth wedi cael eu pennu trwy'r fframwaith rheoli perfformiad sydd gennym mewn lle. Mae'r gwerthusiad prosiectau wedi cael ei bennu gan statws ein prosiectau ar ein cronfa ddata prosiectau.

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion.

Mesurau: Da

Prosiectau: Da

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a drwy gysylltiadau cludiant da.

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Mesurau: Derbyniol

Prosiectau: Ardderchog

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd.

Mesurau: Da

Prosiectau: Ardderchog

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny.

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

Iechyd Corfforaethol: Mae'r cyngor yn effeithlon, yn cael ei reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Mesurau: Derbyniol

Prosiectau: Da

Cyflwynwyd Adolygiad Perfformiad Blynyddol llawn 2021 i 2022 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8 Mehefin.

[Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Dydd Mercher 8fed Mehefin 2022, 9:30yb](#)

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith paratoi i gynorthwyo'r Cabinet newydd i ystyried eu blaenoriaethau wrth symud ymlaen fel y gallwn ddatblygu a chymeradwyo Cynllun Corfforaethol newydd am y pum mlynedd nesaf.

Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol

Ym mis Mai 2019, cymeradwyodd Cyngor Sir Ddinbych Achos Busnes ar gyfer sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol a elwir yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Yng nghyfarfodydd dilynol y Cyngor ym mis Gorffennaf a mis Hydref, cafodd Erthyglau Cymdeithasu a Chytundeb Aelodau drafft eu cymeradwyo, yn ogystal â chyfansoddiad Bwrdd y Cwmni a penodwyd nifer o Gyfarwyddwyr. Cafodd y cwmni ei ymgorffori o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ar 28 Awst 2019.

Ym mis Rhagfyr 2019 cymeradwyodd y Cabinet y bwriad i brydlesu un ar bymtheg o adeiladau o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Mae'r cwmni newydd ym mherchnogaeth lwyr y cyngor. Cydweithiodd y Cyngor yn agos â'r cwmni trwy oblygiadau ariannol cau'r cyfleusterau dros dro oherwydd effeithiau Covid 19.

Fel cwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor mae'n ofynnol iddo gynhyrchu cyfrifon grŵp a fanylir yn yr adrannau Cyfrifon Grŵp.

Prisiadau Asedau

Mae archwilio prisiadau asedau wedi bod yn faes mae'r proffesiwn archwilio wedi canolbwyntio arno ers peth amser. Canolbwyntiwyd yn fwy arno yn 2021-22, yn bennaf gan fod costau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol (wedi'u gyrru gan chwyddiant ac ansefydlogrwydd economaidd) a phrisiau gwerthu tai, sy'n newidynnau allweddol yn y Costau Adnewyddu Dibrisiedig a phrisiadau a nheddau. Mae pob corff llywodraeth leol wedi adolygu prisiadau eu heiddo i ystyried a yw'r prisiadau'n parhau i fod yn gywir yn eu hanfod. Mae mynegeiad wedi'i gymhwyso i brisiadau asedau presennol i sicrhau nad yw'r Cyfrifon wedi'u camdatgan yn sylweddol ar 31 Mawrth 2022. Mae'r ymarfer hwn wedi'i gynnal ar gyfer asedau DRC y Cyngor ac anheddau'r cyngor gan ddefnyddio data a gafwyd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu (BCIS) a Cofrestrfa Tir.

Mae archwilio prisiadau asedau wedi hefyd canfod nad yw'r Cyngor wedi bod yn defnyddio enillion ailbriso i wrthdroi amhariadau prisio asedau blaenorol sydd wedi'u cydnabod yn y Datgan Incwm

a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cyngor wedi gwneud addasiad cyfnod blaenorol i gywiro hyn. Er bod y cywiriad hwn yn effeithio ar ddatganiadau a nodiadau lluosog yn y cyfrifon, nid yw'n effeithio ar berfformiad ariannol nac asedau net y Cyngor, mae'n addasiad rhwng dwy gronfa wrth gefn na ellir eu defnyddio - y gronfa ailbriso wrth gefn a'r cyfrif addasiadau cyfalaf.

Edrych i'r dyfodol

Mae'n debygol na fydd setliadau cyllido llywodraeth leol yn gallu cadw ar yr un lefel â phwysau chwyddiant a fydd yn arwain at ostyngiad mewn cyllid termau real. Er bod ansicrwydd ynglŷn ag union lefelau'r gostyngiad bob blwyddyn, mae'n anochel y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau bod y Cyngor yn byw o fewn ei incwm ac yn parhau i ddarparu ei flaenoriaethau. Fodd bynnag, oherwydd bod y Cyngor wedi llwyddo i nodi a chyflawni arbedion gan reoli cronfeydd wrth gefn a balansau yn ofalus yn y gorffennol, gellir bod yn hyderus iawn y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol gan fuddsoddi rhywfaint ym Mlaenoriaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Ni fydd Cronfa Caledi Covid gyffredinol yn 2022/23, roedd y setliad cyffredinol yn cydnabod effaith barhaus y pandemig ar wasanaethau y bydd angen i'r cyngor eu rheoli. Rhagwelir y bydd cymorth ariannol penodol Llywodraeth Cymru tuag at gostau ychwanegol mewn perthynas â'r pandemig yn parhau ar gyfer y canlynol:

- Taliadau Hunan-Ynysu – 30 Mehefin 2022
- Tâl Salwch Statudol ychwanegol – 30 Mehefin 2022
- Taliadau Cinio Ysgol Am Ddim – diwedd gwyliau ysgol haf 2022

Cytunwyd ar Broses Cyllideb 3/5 Mlynedd a Chynllun Ariannol Tymor Canolig i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn y sefyllfa orau posibl i wynebu'r her. Mae'r broses yn cael ei hadolygu a'i mireinio'n flynyddol ac mae agweddau a nodau allweddol Proses y Gyllideb ar gyfer 2023/24 a thu hwnt yn cynnwys:

- Dal pwysau cyllidebol yn seiliedig ar wasanaethau (o dan £100k)
- Nodi pwysau cyllidebol strategol allweddol (dros £100,000)
- Nodi targedau Effeithlonrwydd Gwasanaeth
- Cynllun Arbedion 5 mlynedd – canolbwyntio ar brosiectau allweddol a adnabuwyd yn ystod proses y gyllideb y llynedd
- Cronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn helpu i roi hwb i brosiectau effeithlonrwydd o bwys
- Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Caiff cydweithrediad a gwaith caled swyddogion ac aelodau wrth baratoi'r gyllideb ei gydnabod yn ddiolchgar.

Gellir gweld manylion llawn cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23, gan gynnwys manylion cyllidebau gwasanaethau, Cyfrif Refeniw Tai a chyllidebau Cyfalaf yn nogfen Gryno'r Gyllideb a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Mehefin 2022 fel rhan o'r Adroddiad Cyllid.

[Cyngor Sir Ddinbych - Cabinet, 28 Mehefin 2022](#)

Steve Gadd

Prif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151)

Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau**Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ddinbych**

Mae'n rhaid i Cyngor Sir Ddinbych:

- (i) wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yng Nghyngor Sir Ddinbych, y Prif Swyddog Cyllid yw'r unigolyn hwnnw, enwi Pennaeth Cyllid ac Eiddo.
- (ii) rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau a diogelu ei asedau;
- (iii) cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Tystysgrif Cyngor Sir Ddinbych.

Rwy'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ddinbych.

Llofnod _____ Dyddiad: _____

Cadeirydd Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ddinbych yn unol â'r arferion priodol a nodwyd yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- (i) dewis polisiâu cyfrifo addas a'u cymhwyso yn gyson;
- (ii) gwneud dyfarniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- (iii) cydymffurfio â Chod yr awdurdod lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

- (i) cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfredol;
- (ii) cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Tystysgrif: Prif Swyddog Cyllid

Rwy'n tystio bod y cyfrifon a gyflwynwyd yn rhoi trosolwg gwirioneddol a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar y dyddiad rhoi gwybod a'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Llofnod _____ Dyddiad: _____

Steve Gadd
Pennaeth Cyllid ac Eiddo (Swyddog Adran 151)

Adran 3 - Datganiadau Ariannol A Nodiadau Ynglŷn Â'r Cyfrifon**Cynnwys**

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	15
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	19
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn	21
Y Fantolen	23
Datganiad Llif Arian	25
<u>Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon</u>	26
1. Safonau Cyfrifyddu Sydd Wedi'u Cyhoeddi ond heb eu Mabwysiadu eto	26
2. Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifo	26
3. Tybiaethau a Wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif Maw	27
4. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen	29
5. Gwariant ac incwm a ddadansoddir yn ôl ei natur	29
6. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	29
7. Gwariant Gweithredu Arall	33
8. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	33
9. Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	33
10. Incwm a Gwariant yr Asiantaeth	33
11. Treth y Cyngor	35
12. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)	36
13. Eiddo, Peiriannau ac Offer	37
14. Eiddo Buddsoddi	41
15. Dyledwyr	41
16. Dyledwyr ar gyfer Trethiant Lleol	42
17. Offerynnau Ariannol	42
18. Asedau i'w Gwerthu	44
19. Credydwyr	45
20. Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	46
21. Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio	50
22. Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio	52
23. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredol	54
24. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi	54
25. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu	55
26. Cysoniad Rhwymedigaethau S'yn Codi o Weithgareddau Ariannu	55
27. Cyllidebau Gyfun	55
28. Lwfansau Aelodau	56
29. Tâl Swyddogion	57
30. Costau Archwilio Allanol	61
31. Incwm Grant	61
32. Partïon Cysylltiedig	64
33. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf	66
34. Prydlesau	67
35. Cynlluniau Pensiwn y Rhoddir Cyfrif Amdanynt fel Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig	68
36. Cynlluniau Pensiwn â Buddiannau Diffiniedig	68
37. Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol	75
38. Asedau Treftadaeth	79
39. Polisiâu Cyfrifo	82
40. Addasiad Cyfnod Blaenorol	90

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut y defnyddir ac ariannir gwariant blynyddol o adnoddau (grantiau llywodraeth, rhenti, treth y cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'n dangos hefyd sut y dyrannir y gwariant ar penderfyniadau rhwng gwasanaethau'r Cyngor. Cyflwynir incwm a gwariant a gyfrifir o dan arferion gyfer dibenion gwneud cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Nodyn 1 Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf

Mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac amhariad ac enillion a cholledion ailbriso yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- **Gwariant gweithredu arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** – y taliadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. Darpariaeth Refeniw Isafswm a chyfraniadau refeniw eraill o incwm a gwariant arall gan nad yw'r rhain yn daladwy o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.
- **Trethiant ac incwm grant amhenodol** – addasir grantiau cyfalaf ar gyfer incwm nad yw'n daladwy o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Addasir grantiau refeniw o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i'r rhai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle bodlonir amodau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle bodlonir amodau yn y flwyddyn.

Nodyn 2 Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn

Mae'r golofn hon yn dangos y newid net ar gyfer cael gwared o gyfraniadau pensiwn ac ychwanegiad incwm a gwariant Budd-daliadau Gweithwyr IAS19 sydd yn gysylltiedig â phensiwn.

- **Ar gyfer gwasanaethau** mae hyn yn cynrychioli cael gwared o gyfraniadau pensiwn y cyflogedig a wnaed gan yr awdurdod fel a ganiateir drwy statud a rhoi costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth y gorffennol yn ei le.
- **Ar gyfer Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** – codir y llog net ar y ddyled buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Nodyn 3 Gwahaniaethau Eraill

Mae'r golofn hon yn cynnwys gwahaniaethau eraill rhwng symiau a gafodd eu debydu / credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud.

- **Ar gyfer Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** mae hwn yn cydnabod addasiadau i Gronfa'r Cyngor am y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.
- * Am ymraniad o'r balans hwn rhwng Gronfa'r Cyngor a'r CRT gweler y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

2021/22	Adroddiad Alldro Terfynol (Cyfrifon Rheoli)	Addasiadau technegol i Gyfrifon Rheoli	Gwariant Net sydd yn daladwy i Gronfa'r Cyngor a Balansau CRT	Addasiadau rhwng Sail yr Ariannu a'r Cyfrifyddu			Cyfanswm yr Addasiadau	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
				Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf (Nodyn 1)	Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn (Nodyn 2)	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3)		
				£000	£000	£000		
Hamdden - ADM	3,659	(886)	2,773	164	0	0	164	2,937
Cymunedau & Chwsmeriaid	3,395	98	3,493	194	530	(20)	704	4,197
Gwasanaethau Addysg a Phlant	21,904	876	22,780	859	1,761	158	2,778	25,558
Ysgolion	85,681	(752)	84,929	(335)	2,109	806	2,580	87,509
Gwella Busnes a Moderneiddo	4,972	(260)	4,712	814	542	(15)	1,341	6,053
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	2,270	149	2,419	106	443	8	557	2,976
Corfforaethol ac Amrywiol	15,495	(401)	15,094	2,976	(1,085)	(6)	1,885	16,979
Cyllid & Eiddo	5,086	331	5,417	1,024	766	33	1,823	7,240
Gwasanaethau Prifffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol	18,563	(6,727)	11,836	11,680	1,941	18	13,639	25,475
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	11,872	(639)	11,233	162	978	(29)	1,111	12,344
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	46,069	80	46,149	1,729	2,423	(7)	4,145	50,294
Tai Awdurdod Lleol (CRT)		(5,619)	(5,619)	(14,727)	513	13	(14,201)	(19,820)
Cost Net Gwasanaethau	218,966	(13,750)	205,216	4,646	10,921	959	16,526	221,742
Incwm a Gwariant Arall		(205,423)	(205,423)	(23,740)	7,200	(16)	(16,556)	(221,979)
(Arian Dros Ben) neu Ddiffyg	218,966	(219,173)	(207)	(19,094)	18,121	943	(30)	(237)
Balans agoriadol Cronfa'r Cyngor a'r CRT			(51,617)					
Llai/Ychwanegu (Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Falans Gronfa'r Cyngor a'r CRT yn y Flwyddyn			(207)					
Balans Terfynol Cronfa'r Cyngor a'r CRT ar 31 Mawrth*			(51,824)					

2020/21	Adroddiad Alldro Terfynol (Cyfrifon Rheoli)	Addasiadau technegol i Gyfrifon Rheoli	Gwariant Net sydd yn daladwy i Gronfa'r Cyngor a Balansau CRT	Addasiadau rhwng Sail yr Ariannu a'r Cyfrifyddu			Cyfanswm yr Addasiadau	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
				Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf (Nodyn 1)	Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn (Nodyn 2)	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3)		
				£000	£000	£000		
Hamdden - ADM	3,758	(826)	2,932	1,746	0	(59)	1,687	4,619
Cymunedau & Chwsmeriaid	3,093	100	3,193	295	162	(8)	449	3,642
Gwasanaethau Addysg a Phlant	17,738	(453)	17,285	318	617	(76)	859	18,144
Ysgolion	66,618	105	66,723	6,345	223	(395)	6,173	72,896
Gwella Busnes a Moderneiddo	4,329	147	4,476	883	178	0	1,061	5,537
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	2,366	70	2,436	17	157	27	201	2,637
Corfforaethol ac Amrywiol	14,302	(2,341)	11,961	814	(4,535)	4	(3,717)	8,244
Cyllid & Eiddo	3,442	(34)	3,408	375	216	60	651	4,059
Gwasanaethau Prifffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol	16,657	(1,499)	15,158	9,076	647	19	9,742	24,900
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	9,294	(146)	9,148	1,074	328	41	1,443	10,591
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	38,104	(239)	37,865	366	844	(86)	1,124	38,989
Tai Awdurdod Lleol (CRT)	0	(5,869)	(5,869)	6,677	156	9	6,842	973
Cost Net Gwasanaethau	179,701	(10,985)	168,716	27,986	(1,007)	(464)	26,515	195,231
Incwm a Gwariant Arall	0	(181,232)	(181,232)	(40,093)	7,040	(16)	(33,069)	(214,301)
(Arian Dros Ben) neu Ddiffyg	179,701	(192,217)	(12,516)	(12,107)	6,033	(480)	(6,554)	(19,070)
Balans agoriadol Cronfa'r Cyngor a'r CRT			(39,101)					
Llai/Ychwanegu (Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Falans Gronfa'r Cyngor a'r CRT yn y Flwyddyn			(12,516)					
Balans Terfynol Cronfa'r Cyngor a'r CRT ar 31 Mawrth*			(51,617)					

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad yn dangos y gost gyfrifeg yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifeg a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant neu renti. Mae Awdurdodau yn codi trethi a rhenti i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifeg. Mae'r sefyllfa trethiant wedi'i dangos yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

2020/21				2021/22		
Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
11,312	(6,693)	4,619	Hamdden - ADM	5,699	(2,942)	2,757
5,052	(1,410)	3,642	Cymunedau & Chwsmeriaid	4,116	(1,735)	2,381
35,750	(17,606)	18,144	Gwasanaethau Addysg & Phlant	39,546	(21,284)	18,262
83,980	(11,084)	72,896	Ysgolion	86,987	(15,504)	71,483
6,128	(591)	5,537	Gwella Busnes & Moderneiddo	6,295	(467)	5,828
3,491	(854)	2,637	Gwasanaethau Cyfreithiol, AD & Democrataidd	3,718	(862)	2,856
41,062	(32,818)	8,244	Corfforaethol & Amrywiol	42,534	(27,415)	15,119
7,519	(3,460)	4,059	Cyllid & Eiddo	10,087	(3,780)	6,307
38,386	(13,486)	24,900	Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau & Amgylcheddol	40,033	(12,093)	27,940
21,238	(10,647)	10,591	Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd	24,452	(12,935)	11,517
74,479	(35,490)	38,989	Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	81,200	(38,300)	42,900
16,931	(15,958)	973	Tai Awdurdod Lleol (CRT)	(3,450)	(16,103)	(19,553)
345,328	(150,097)	195,231	Cost y Gwasanaethau	341,217	(153,420)	187,797

2020/21				2021/22		
Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
20,363	(180)	20,183	Gwariant Gweithredu Arall (Nodyn 7)	20,400	(357)	20,043
17,165	(513)	16,652	Ariannu a Buddsoddi (Incwm) a Gwariant (Nodyn 8)	15,932	(529)	15,403
	(251,136)	(251,136)	Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (Nodyn 9)	0	(260,529)	(260,529)
382,856	(401,926)	(19,070)	(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth	377,549	(414,835)	(37,286)
		(8,541)	(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar adbriso Eiddo, Peiriannau ac Offer			(111,502)
		3,979	Colledion Amhariad ar Asedau Anghyfredol a Godir ar y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn			35,680
		15,148	Ail-fesuriad y ddyled budd net a ddiffiniwyd /(Ased)			(75,593)
		10,586	(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall			(151,415)
		(8,484)	Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr			(188,701)

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yng ngwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi'u dadansoddi yn 'gronfeydd y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai sy'n cael eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r llinell (Arian dros ben) neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, ac mae'r manylion wedi'u dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n berthnasol i Falans Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer pwrpasau sefydlu treth y cyngor a rhent. Mae'r Cynnydd/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i'r llinell Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor statudol a'r Balans Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor.

2021/22	Nodyn	Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn			Cronfeydd Cyfala			Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000
		Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000		
Balans ar 31 Mawrth 2021		(8,858)	(40,003)	(2,756)	(8,290)	(7,638)	(67,545)	22,072	(45,473)
* Addasiadau technegol								(953)	(953)
Balans ar 1 Ebrill 2021		(8,858)	(40,003)	(2,756)	(8,290)	(7,638)	(67,545)	21,119	(46,426)
Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2021/22									
	(Arian Dros Ben) neu ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau			D.I.&G.C. (23,881)			(37,286)		(37,286)
	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			D.I.&G.C.				(151,415)	(151,415)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(13,405)		(23,881)			(37,286)	(151,415)	(188,701)
	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau			6 24,475	1,333	(3,460)	19,998	(19,998)	
(Cynnydd)/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		(15,755)		594	1,333	(3,460)	(17,288)	(171,413)	(188,701)
	Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd			20 106					
	(Cynnydd)/Lleihad yn 2021/22	16,311	(16,417)						
Balans ar 31 Mawrth 2022		(8,302)	(56,420)	(2,056)	(6,957)	(11,098)	(84,833)	(150,294)	(235,127)

* Gwnaed addasiad i gyfrifo am y rhwymedigaeth pensiwn yn ynwneud â chyfran Cyngor Sir Ddinbych o rwymedigaeth pensiwn Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru £110k a thriniaeth o dderbyniad cyfalaf gohiriedig (£1,063k).

2020/21	Nodyn	Cronfeydd Refeniwr Wrth Gefn			Cronfeydd Cyfala			Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000	
		Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi £000	Cyfrif Refeniwr Tai £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000			
Balans ar 31 Mawrth 2020		(7,469)	(28,965)	(2,667)	(6,643)	(3,445)	(49,189)	12,988	(36,201)	
* Addasiadau technegol							0	(788)	(788)	
Balans ar 1 Ebrill 2020		(7,469)	(28,965)	(2,667)	(6,643)	(3,445)	(49,189)	12,200	(36,989)	
Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn ystod 2020/21										
	(Arian Dros Ben) neu ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	D.I.&G.C.	(16,427)	(2,643)			(19,070)		(19,070)	
	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	D.I.&G.C.						10,586	10,586	
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(16,427)		(2,643)			(19,070)	10,586	(8,484)	
	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	6	3,975	2,579	(1,647)	(4,193)	714	(714)		
(Cynnydd)/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd			(12,452)	(64)	(1,647)	(4,193)	(18,356)	9,872	(8,484)	
	Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	20	11,063	(11,038)	(25)					
(Cynnydd)/Lleihad yn 2020/21			(1,389)	(11,038)	(89)	(1,647)	(4,193)	(18,356)	9,872	(8,484)
Balans ar 31 Mawrth 2021		(8,858)	(40,003)	(2,756)	(8,290)	(7,638)	(67,545)	22,072	(45,473)	

* Gwnaed addasiad i gyfrifo am y rhwymedigaeth pensiwn yn ynwneud a'r staff a drosglwyddodd o Gyngor Sir Ddinbych i Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn 2019/20.

Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r dyledion sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai dyledion) yn cael eu cydweddu â'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn eu dal. Adroddir ynglŷn â chronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn ac ar unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn na ellir ei defnyddio ond i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Mae'r ail gategori o gronfeydd wrth gefn yn rhai na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion sydd heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Adbriso Wrth Gefn), ble y deuai symiau ar gael i ddarparu gwasanaeth dim ond os gwerthir yr asedau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a gaiff eu dangos yn y llinell 'Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido o dan Reoliadau' yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Ailddatganwyd 01 Ebrill 2020 £000	Ailddatganwyd 31 Mawrth 2021 £000		Nodyn	31 Mawrth 2022 £000
97,000	94,977	<i>Anheddau Cyngor</i>		158,745
286,168	286,645	<i>Tir ac Adeiladau Eraill</i>		319,675
11,077	9,257	<i>Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer</i>		8,973
122,935	139,219	<i>Isadeiledd</i>		144,649
2,466	1,485	<i>Asedau Cymunedol</i>		1,485
7,127	9,553	<i>Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd</i>		22,446
Gwerth Presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	805,893	814,286	5,893	5,332
Gwerth teg yr Asedau Cynlluniau	(504,254)	(572,010)		
Is-gyfanswm	301,639	242,276	5,893	5,332
Symudiadau eraill yn y rhwymedigaeth (ased)				
Rhwymedigaeth net yn deillio o fudd diffiniedig	301,639	242,276	5,893	5,332

Cysoniad y Symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2020/21 £000	2021/22 £000
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	417,551	504,254
* Addasiadau technegol	(1,119)	0
Gwerth teg asedau'r cynllun ar 1 Ebrill	416,432	504,254
Incwm llog	9,875	10,644
Treuliau gweinyddu	(512)	(531)
Enilliad/(colled) ailfesuriad:		
• Yr elw ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm a gynhwysir yn y gwariant llog net	85,948	56,826
• Arall		
Effaith newidiadau yng nghyfraddau'r gyfnewidfa dramor		
Cyfraniadau gan y cyflogwr	16,372	17,032
Cyfraniadau gan weithwyr	4,014	4,160
Buddiannau a dalwyd	(20,518)	(20,375)
Arall	(7,357)	0
Gwerth cau asedau'r cynllun	504,254	572,010

* Gwnaed addasiad i gyfrifo am y rhwymedigaeth pensiwn yn ymwneud a'r staff a drosglwyddodd o Gyngor Sir Ddinbych i Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn 2019/20.

Cysoniad Gwerth Presennol Rhwymedigaethau y Cynllun (Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig)

	Rhwymedigaeth a Ariennir		Rhwymedigaeth nas Ariennir	
	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau Disgresiwn	
	2020/21 £000	2021/22 £000	2020/21 £000	2021/22 £000
Balans agoriadol rhwymedigaethau'r cynllun	698,456	805,893	6,233	5,893
* Addasiadau technegol	(1,907)	0	0	0
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	696,549	805,893	6,233	5,893
Cost gwasanaeth presennol	19,724	26,252		
Cost llog	16,262	16,753	141	117
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun (Enillion) a cholledion ailfesuriad:	4,014	4,160		
• (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	0	(6,291)	0	(48)
• (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	114,873	(14,571)	323	34
• Arall	(14,006)	2,118	(94)	16
Cost gwasanaeth blaenorol	0	0		
Colledion/(enillion) a chwtogiad	138	347		
Rhwymedigaethau a ragdybir ar gyfuniad endidau Buddiannau a dalwyd	(20,518)	(20,375)	(710)	(680)
Rhwymedigaethau wedi eu dileu ar setliadau	(11,143)	0		
Balans terfynol ar 31 Mawrth	805,893	814,286	5,893	5,332

Asedau Cynwysedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

	Gwerth teg asedau'r cynllun	
	2020/21 £000	2021/22 £000
Arian Parod a Symiau Cywerth ag Arian Parod	8,572	18,304
Ecwitiau		
• DU a ddyfynnwyd	0	0
• Byd-eang a ddyfynnwyd	53,450	61,205
• Byd-eang na ddyfynnwyd	0	0
• UDA	0	0
• Japan	0	0
• Ewrop	0	0
• Marchnadoedd datblygol	53,451	51,481
• Cyffindir	0	0
• Dwyrain Pell	0	0
Is-gyfanswm Ecwiti	106,901	112,686
Bondiau		
• Bondiau Tramor Eraill	57,989	57,201
• LDI	123,038	145,863
Is-gyfanswm Bondiau	181,027	203,064
Eiddo		
• DU	25,213	28,601
• Tramor	5,043	5,720
Is-gyfanswm Eiddo	30,256	34,321
Eraill		
• Cronfeydd Diogelu	33,785	37,181
• Ecwiti preifat	50,930	60,633
• Isadeiledd	23,700	27,456
• Coed ac Amaeth	4,034	2,860
• Credyd Preifat	11,598	12,012
• DGF	53,451	63,493
Is-gyfanswm Eraill	177,498	203,635
Cyfanswm Asedau	504,254	572,010

Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Dyledion

Mae dyledion wedi'u hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod yn dibynnu ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog ac ati.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Dyledion Buddiannau â Disgresiwn wedi'u hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa'r Cyngor Sir yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2019.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddion Disgresiwn	
	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22
Rhagdybiaethau Marwolaeth:				
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr presennol:				
• Dynion	22.6 blynydd	22.5 blynydd	22.6 blynydd	22.5 blynydd
• Merched	25.0 blynydd	24.9 blynydd	25.0 blynydd	24.9 blynydd
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:				
• Dynion	24.2 blynydd	24.0 blynydd		
• Merched	27.0 blynydd	26.9 blynydd		
Cyfradd Chwyddiant	2.70%	3.30%	2.70%	3.50%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.95%	4.55%		
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.80%	3.40%	2.80%	3.60%
Cyfradd disgowntio buddiannau'r cynllun	2.10%	2.80%	2.10%	2.80%

Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth budd ddiffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwari a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifwydd isod wedi eu pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac mae'n rhagdybio, ar gyfer pob newid, bod y rhagdybiaeth wedi dadansoddi newidiadau tra mae'r holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn rhagdybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n lleihau ar gyfer dynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai rhagdybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifwydd wedi dilyn polisiau cyfrifo'r cynllun h.y. ar sail actiwari yn defnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir. Nid yw'r dulliau na math y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r dadansoddiad sensitifwydd isod wedi eu newid ers y cyfnod blaenorol.

Newid mewn rhagdybiaethau 31 Mawrth 2022	Effaith ar y rhwymedigaeth net yn sgil y Rhwymedigaeth Budd Ddiffiniedig yn y Cynllun £000
Hirhoedledd (cynnydd mewn 1 flwyddyn)	24,533
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%)	14,022
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%)	1,519
Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaeth y cynllun (cynnydd o 0.1%)	(13,786)
Enillion buddsodiad (lleihad o 1%)	(5,746)

Risgiau a'r Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r Gronfa yn cynnal sefyllfaoedd yn defnyddio amrywiaeth o offerynnau ariannol ac felly mae'n agored i nifer o risgiau ariannol gan gynnwys risgiau credyd a gwrthrannol, risg hylifedd, risg marchnad a risg cyfraddau cyfnewid.

Mae gweithdrefnau rheoli risg yr Awdurdod Gweinyddu yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol a gweithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hynny. Mae'r Gronfa Bensiwn yn flynyddol yn adolygu ei Ddatganiad Strategaeth Fuddsoddi, a'r Datganiad Strategaeth Cyllido gyfatebol, sy'n gosod polisi'r Gronfa Bensiwn ar faterion fel y math o fuddsoddiadau i'w dal, y balans rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau, cyfyngiadau buddsoddi a'r ffordd y rheolir risg.

Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel gyllido 100% dros y 11 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro yn flynyddol. Bydd y prisiad tair blynedd nesaf yn cael ei gwblhau ar 31 Mawrth 2022.

Bydd yn rhaid i'r cynllun ystyried newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Dan y Ddeddf, efallai na fydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr, a'r prif gynlluniau pensiwn eraill, yn darparu buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau, o fewn fframwaith cyffredin, i sefydlu cynlluniau cyfartaledd enillion gyrfa newydd i dalu pensiynaua buddiannau eraill i weision cyhoeddus penodol.

Rhagwelir y bydd yr awdurdod yn talu £16,959k i'r cynllun yn 2022/23.

Cyfartaledd pwysol hyd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 17 mlynedd, 2021/22 (17 mlynedd 2020/21).

37. Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Fel rhan o fabwysiadu Cod Rheoli'r Trysorlys, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 ar 23 Chwefror 2021. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Reoli'r Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol â Chyfarwyddyd Buddsoddi Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn egluro y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Arferion Rheoli'r Trysorlys, yn seiliedig ar geisio cyfradd uchaf dychweliadau sy'n gyson â lefelau priodol diogelwch a hylifedd.

Y prif risgiau a gaiff eu cwmpasu yw:

Risg Credyd: Y posibilrwydd y bydd partïon eraill yn methu talu symiau dyledus i'r Cyngor.

Risg Hylifedd: Y posibilrwydd y does gan y Cyngor ddim arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymadau i wneud taliadau.

Risg Marchnad: Y posibilrwydd y gallai colled ariannol godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesuriadau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Risg Credyd

Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg trwy sicrhau bod buddsoddiadau wedi'u lleoli gyda'r llywodraeth ganolog, awdurdodau eraill neu Fanciau a Chymdeithasau Adeiladu sydd â sgorau credyd digon uchel fel y nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys. Bydd cyfyngiad o £5,000k yn cael ei roi ar swm yr arian y gellir ei fuddsoddi gyda pharti unigol. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £10,000k am gyfnod hirach na blwyddyn.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw brofiad hanesyddol o ddiffygdalu gan barti arall. Mae'r Cyngor yn defnyddio amryw o ddangosyddion yn ogystal â sgorau credyd i benderfynu pwy i fuddsoddi gyda nhw. Mae'r rhain yn cynnwys gwarantau'r Llywodraeth, cryfder ariannol y Wlad a phrisiau cyfranddaliadau. Bydd y Cyngor a'i ymgynghorydd trysorlys yn parhau i ddadansoddi a monitro'r dangosyddion hyn a datblygiadau credyd yn rheolaidd ac yn ymateb yn ôl yr angen i sicrhau diogelwch y symiau a fuddsoddwyd.

Dyledwyr

Cydnabyddir yn yr amgylchedd economaidd presennol y bydd casglu arian dyledus yn anoddach, ond mae'r Awdurdod eisoes wedi buddsoddi mewn methodoleg Rheoli Credyd cryf gyda staff hyfforddedig wedi'u cefnogi gan drefnau effeithiol a ddylai gynnal llif arian a lleihau enghreifftiau o droseddau cytundebol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth nominal portffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

	Sgôr Tymor Hir ar adeg Buddsoddi	Sgôr Tymor Hir ar 31/03/2022	Balans a fuddsoddwyd ar 31/03/2022 £000	Dyddiad Ad-dalu			
				0-3 Mis £000	4-6 Mis £000	7-9 Mis £000	10-12 Mis £000
Banciau'r DU	A+	A+	3,000	3,000			
Bank of Scotland	A+	A+	1,500	1,500			
NatWest							
Llywodraeth y DU	AA-u	AA-u	24,200	24,200			
Swyddfa Rheoli							
Dyled							
Cyfanswm			28,700	28,700	0	0	0

Diffiniad		
Graddau Tymor Hir	AA	Ansawdd Credyd Uchel iawn Disgwyliad o risg credyd isel iawn. Gallu cryf iawn i dalu ymrwymadau ariannol sydd ddim yn agored yn sylweddol i ddigwyddiadau rhagweladwy.
	A	Ansawdd Credyd Uchel Disgwyliad o risg credyd isel. Gallu cryf i dalu ymrwymadau ariannol, a all fod yn fwy agored i amodau busnes neu economaidd anffafriol nag sy'n wir ar gyfer graddau uwch.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad at gyfleusterau benthyca gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (PWLb). Does dim risg yn cael ei adnabod na fydd y Cyngor yn gallu dod o hyd i'r arian i dalu ei ymrwymadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gorfod rheoli'r risg na fydd yn agored i ailgyflenwi cyfran helaeth o'r arian a fenthycwyd ar adeg pan mae cyfraddau llog yn anffafriol.

Roedd dadansoddiad aeddfedrwydd dyled PWLB a dros dro y Cyngor ar 31 Mawrth 2022 fel a ganlyn:

	Blynyddoedd	31 Mawrth 2021 £000	31 Mawrth 2022 £000	%
Benthyciadau Tymor Byr	Llai na 1 blwyddyn	(25,301)	(32,563)	13.88
Benthyciadau Tymor Hir	Dros 1 dan 6	(36,276)	(35,303)	15.04
	Dros 6 dan 10	(24,863)	(23,077)	9.83
	Dros 10 dan 15	(31,396)	(35,016)	14.92
	Dros 15 dan 20	(23,221)	(14,796)	6.30
	Dros 20 dan 25	(6,000)	(6,000)	2.56
	Dros 25 dan 30	0	(4,000)	1.70
	Dros 30 dan 35	(62,130)	(69,630)	29.67
	Dros 35 dan 40	(25,820)	(14,320)	6.10
	Dros 40 dan 45	0	0	0.00
Cyfanswm Benthycia Tymor Hir		(209,706)	(202,142)	86.12
Cyfanswm Benthycia ar Swm Nominal		(235,007)	(234,705)	100.00
Llog a Gronnwyd		(1,662)	(1,607)	
Premiwm a Ohiriwyd				
Addasiadau SAARh 9		5,369	5,303	
Cyfanswm Benthycia ar Gost Amorteiddio		(231,300)	(231,009)	

Risg Marchnad

(1) Risg Cyfradd Llog:

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n deillio o symudiadau yn y cyfraddau llog. Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw lliniaru'r risgiau hyn trwy osod terfyn uchaf o 40% ar ddyled allanol a all fod yn destun cyfraddau llog amrywiol. Ar 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2022, roedd 100% o'r portffolio dyledion mewn offerynnau cyfradd sefydlog.

Mae buddsoddiadau hefyd yn amodol ar symudiadau mewn cyfraddau llog. Oherwydd bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud ar gyfraddau sefydlog, ond ar gyfer cyfnodau amser byrrach, maent yn fwy agored i symudiadau cyfraddau llog. Mae'n rhaid cydbwysu'r risg yn erbyn y camau gweithredu a gymerwyd i liniaru'r risg credyd.

(2) Risg Pris:

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly ni fydd unrhyw risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Cyngor yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhris yr offerynnau ariannol).

(3) Risg Cyfnewid Tramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na dyledion ariannol mewn arian tramor. Felly, nid yw'n agored i risg o golli arian o ganlyniad i symudiadau anffafriol yn y cyfraddau cyfnewid.

38. Asedau Treftadaeth

Cysoni Gwerth Asedau Treftadaeth sydd gan yr Awdurdod.

2021/22	Plas Newydd £000	Carchar Rhuthun £000	Nantclwyd y Dre £000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £000
Cost neu Brisiad 1 Ebrill 2021	1,895	7,266	5,840	15,001
Ychwanegiadau				0
Enillion Ailbrisiad	684	2,911	2,291	5,886
Gostyngiadau ailbrisiad wedi eu cydnabod yn yr Arian Dros Ben neu'r Diffyg yn narpariaeth y gwasanaethau				0
Dibriadau	(10)	(31)	(31)	(72)
31 Mawrth 2022	2,569	10,146	8,100	20,815

2020/21	Plas Newydd £000	Carchar Rhuthun £000	Nantclwyd y Dre £000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £000
Cost neu Brisiad 1 Ebrill 2020	1,905	7,298	5,870	15,073
Ychwanegiadau				0
Enillion Ailbrisiad				0
Gostyngiadau ailbrisiad wedi eu cydnabod yn yr Arian Dros Ben neu'r Diffyg yn narpariaeth y gwasanaethau				0
Dibriadau	(10)	(32)	(30)	(72)
31 Mawrth 2021	1,895	7,266	5,840	15,001

Cofebion Hynafol Cofrestredig

Mae gan y Cyngor nifer o gofebion hynafol cofrestredig ac adeiladau rhestredig a ddsberthir gan CADW fel Asedau Treftadaeth ond nid oes gan y rhain brisiadau ynghlwm. Yn eu plith mae Castell Dinas Bran sydd yn gastell canoloesol sy'n sefyll yn uchel ar fryn uwchben tref Llangollen, ac mae'n safle Bryngaer o'r Oes Haearn. Mae eraill yn cynnwys Tŵr Jiwbilf, Moel Fenlli, Moel y Gaer Llanbedr, Caer Drewyn, Tŷ Baddon Rufeinig Prestatyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan CADW neu Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys.

Regalia Dinesig

Mae'r rhan fwyaf o'r Regalia Dinesig yn dal i fod ym mherchnogaeth pob Cyngor Tref, gyda nifer fach iawn o wrthrychau yn derbyn gofal gan y Gwasanaeth Treftadaeth, oherwydd bod angen gofal a storfa broffesiynol arnynt neu oherwydd eu gwerth hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw Regalia Dinesig wedi'i gynnwys ar y Fantolen gan fod angen rhagor o wybodaeth a chyfuno'r casgliadau.

Adeiladau Treftadaeth

Mae gan Sir Ddinbych yr adeiladau treftadaeth a ganlyn. Ailbrisiwyd yr adeiladau yn 2018/19 fel rhan o'r rhaglen ailbrisio pum mlynedd. Nid oes prisiad, ar hyn o bryd, ar gyfer yr arteffactau a gedwir yn yr adeiladau. Mae'r rhan fwyaf o arteffactau yn 'roddion' heb unrhyw gost ac nid yw'r gair 'gwerth' mewn amgueddfeydd yn aml yn cyfeirio at werth ariannol.

Plas Newydd – Adeilad Gradd 2 a Thirwedd Rhestredig*

Mae Plas Newydd yn eiddo dau lawr ar wahân sydd wedi'i adeiladu gyda ffrâm bren a drychiadau brics a charreg wedi'u rendro a'u paentio. Mae gan yr amgueddfa tua 400 o arteffactau gan gynnwys dodrefn, eitemau cymdeithasol a domestig (llyfrau, medalau, cerameg a gwisgoed), effemera a chasgliadau amrywiol.

*Carchar Rhuthun – Carchar Fictoraidd Gradd 2**

Caeodd Carchar Rhuthun fel carchar yn 1916. Prynodd y Cyngor Sir yr adeiladau yn 1926 a'u defnyddio ar gyfer swyddfeydd, archifau'r sir a llyfrgell y dref. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd adeiladau'r carchar fel ffatri arfau, cyn ei dychwelyd i'r Cyngor Sir fel pencadlys Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych. Yn 2002, ailwampiodd y carchar yn helaeth a'i ailagor fel amgueddfa. Mae rhai o'r eitemau yn y casgliad yn rhan annatod o'r adeilad, megis y baddonau cerrig, tra bod eraill yn wrthrychau ac yn archifau sy'n ymwneud â hanes y Carchar.

Nant Clwyd Y Dre – Adeilad Graddfa 1 a Gerddi Rhestredig*

Prynwyd yr eiddo gan Gyngor Sir Clwyd yn 1984. Roedd yn adfail ond roedd rhaglen i adnewyddu a diogelu'r rhannau allanol a gwblhawyd yng nghanol y 1990au. Cafodd yr eiddo ei adnewyddu yn llawn a'i agor i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2007 fel amgueddfa oherwydd ei deilyngdod hanesyddol.

Mae'r eiddo'n cynnwys tŷ tua'r 14eg ganrif a estynnwyd yn sylweddol. Mae'r eiddo yn strwythur rhestredig gradd 1 gyda gardd hanesyddol gofrestrdedig, gazebo rhestredig gradd 1 a waliau gardd rhestredig. Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau sy'n cael eu harddangos naill ai'n cael eu hatgynhyrchu neu eu prynu o ffynhonnell anhysbys y tu allan i Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae unrhyw wrthrychau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â hanes y tŷ, sydd wedi dod i'r amlwg ers hynny ac sydd wedi cael eu 'rhoi' wedi'u derbyn i Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych.

Casgliadau Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych

Mae'r casgliad yn dyddio o'r 1960au pan, cyn bodolaeth gwasanaeth amgueddfa neu roedd deunydd yn cael ei gasglu gan amryw o adrannau o'r hen awdurdodau lleol. Mae tua 10,000 o wrthrychau yn y casgliad gan gynnwys hanes cymdeithasol a diwydiannol, archif a deunydd archeolegol.

Amgueddfeydd

Mae tua 1,000 o eitemau yn gysylltiedig â'r hen amgueddfa yn Ninbych a tua 3,000 o

eitemau unigol yn gysylltiedig ag Amgueddfa'r Rhyl.

Asedau Treftadaeth Anniriaethol

Mae rhai cofnodion hanesyddol yn cael eu cadw yn Swyddfa Cofnodion Sir Ddinbych, ond mae angen ymchwil pellach ar gyfer perchnogaeth rhai o'r cofnodion.

Arall

Mae gan Ysgol Uwchradd yn Sir Ddinbych lun gan yr arlunydd Tirlun Cymreig, Syr John "Kyffin" Williams. Amcangyfrif iw ei fod yn werth rhwng £14,000 - £20,000.

Rheoli Casgliadau a Phrasiadau

Mae rheoli casgliadau yn cael ei arwain gan y Cynllun Achredu Amgueddfeydd a Llywodraeth Cymru - Strategaeth Amgueddfeydd Cymru. Mae casgliadau treftadaeth teithiol y Sir yn cael eu cadw yn Storfa Sir yn Rhuthun. Mae'r rhain yn cynnwys casgliadau archeolegol (fel canfyddiadau Rhufeinig o Faddondy Prestatyn a chasgliadau canoloesol o Gastell Rhuddlan), casgliadau sy'n gysylltiedig â Merched Llangollen, sawl cadair Eisteddfod a chasgliadau hanes cymdeithasol sydd yn ymwneud â'r sir gyfan. Mae gan Blas Newydd, Carchar Rhuthun ac Amgueddfa'r Rhyl i gyd Achrediad Amgueddfeydd.

Cynhaliwyd archwiliad gwrthrych llawn ym Mhlas Newydd, Carchar Rhuthun ac Amgueddfa'r Rhyl yn 2018/19. Yn 2021 dychwelyd gwrthrychau yn ymwneud ag Amgueddfa ac Ysbyty Dinbych, a oedd wedi bod ar fenthyciad tymor hir i'r Amgueddfa Gwirfoddolwyr Dinbych. Mae gwaith yn parhau yn Storfa yr Amgueddfa i wirio cyflwr, ail-labelu, tynnu lluniau a symud pob gwrthrych yn gorfforol, fel rhan o brosiect mwy i wella gofal gwrthrych a cynhwysedd storio. Mae Cronfa Ddata Rheoli Casgliadau yn cadw'r holl wybodaeth gwrthrychau, ac mae swydd y Curadur yn bodloni gofynion Achredu Amgueddfeydd yn llawn.

Benthyciadau

Bydd nifer o eitemau yn cael eu benthycia i ac o'r Gwasanaeth Treftadaeth. Mae gan Plas Newydd ddodrefn sy'n cael ei fenthycia gan Amgueddfa Cenedlaethol Cymru ac mae'r rhain wedi'u cynnwys ym mholisi yswiriant Sir Ddinbych. Mae yna hefyd eitemau ar fenthyciad hirdymor gan Orielau Cyfiawnder yn Nottingham yng Ngharchar Rhuthun. Bydd cofrestr fenthyciadau yn cael ei chadw ym mhrif swyddfa'r amgueddfa.

Caffael a Gwerthu

Mae gan y Gwasanaeth Treftadaeth "Lyfryn Dogfennau a Threfnau Amgueddfa", yn ogystal â'r polisïau eraill sydd wedi'u rhestru yng Nghynllun Ymlaen y Gwasanaeth Treftadaeth. Mae Dogfennaeth a Llawlyfr Gweithdrefn yr Amgueddfa yn dogfennu'r gweithdrefnau ar gyfer caffael a gwaredu pob eitem. Dylai fod gan bob eitem rif unigryw, manylion am berchnogaeth a math o flaendal. Unwaith y bydd eitem ar gael yn erbyn y Polisi Casglu, gwneir penderfyniad i'w dderbyn yn ffurfiol i gasgliad yr amgueddfa neu ddychwelyd i'r perchennog.

39. Polisiâu Cyfrifo

i. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn o 31 Mawrth 2022. Mae gofyn i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon Blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygiad) 2018. Mae'r Rheoliadau hynny'n gofyn iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22' (y Cod) yn bennaf, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Paratowyd y cyfrifon ar sail cost hanesyddol ac eithrio rhai categorïau o asedau anghyfredol sy'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth cyfredol ac offerynnau ariannol, sydd bellach yn cael eu cario o fewn y Fantolen ar werth teg fel y diffinnir gan y Cod. Paratowyd y Datganiad Cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyflwyniad y Cyngor o'r cyfrifon yn cydymffurfio â mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r Prif Datganiadau yn cynnwys:

- Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn
- Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- Y Fantolen
- Datganiad Llif Arian

ii. Cyfrifyddu ar gyfer Ysgolion yr Awdurdod Lleol

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cadarnhau bod y cydbwysedd rheoli ar gyfer ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol (h.y. y categorïau hynny o ysgol a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'l diwygiwyd) yn gorwedd gyda'r awdurdod lleol.

Mae y cod hefyd yn nodi bod asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llifau arian parod yr ysgolion yna yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol yr awdurdod lleol.

Felly mae trafodion, llifau arian parod a balansau ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol yr awdurdod fel pe baent yn drafodion, llifau arian a balansau yr awdurdod.

iii. Croniadau Incwm a Gwariant

Cedwir y cyfrifon ar sail cronïadau yn unol â'r Cod.

Gwneir cronïadau mewn perthynas â grantiau a hawliwyd neu gellir ei hawlio at ddibenion refeniw a chyfalaf. Caiff rhai hawliadau grant eu cwblhau ar ôl i'r cyfrifon gael eu cwblhau ac yn yr achos hwn caiff y grant ei gronni ar sail yr amcangyfrif gorau sydd ar gael, a chyfrifir am unrhyw wahaniaethau yn y flwyddyn ganlynol.

Cyfrifir gweithgaredd ar gyfer y flwyddyn y caiff ei gynnal, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Caiff ffioedd, taliadau a rhenti gan gwsmeriaid eu cyfrif fel incwm ar y dyddiad y mae'r Cyngor yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.
- Caiff cyflenwadau o nwyddau a gwasanaethau eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio. Lle ceir bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a phryd y cânt eu defnyddio, cânt eu cario fel rhestr eiddo ar y Fantolen
- Cyfrifir y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail cyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na llifoedd arian sydd wedi'u gosod neu eu penderfynu gan y contract.
- Lle cydnabyddir incwm a gwariant ond nad ydyw arian parod wedi'i dderbyn neu ei dalu, cofnodir y dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ar y Fantolen. Lle ceir amheuaeth y caiff dyledion eu setlo, ysgrifennir balans y dyledwyr i lawr a gwneir tâl i referniw am yr incwm na fydd yn cael ei gasglu o bosibl.

iv. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Caiff arian parod ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw ac arian parod a gedwir mewn cyfrifon adnau sy'n ad-daladwy ar orchymyn. Mae cywerthoedd arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth. Mae hyn yn golygu bod 'Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod' yn cynnwys arian parod a gedwir mewn banc, cyfrifon adnau ar alw a chyfrifon galw mynediad uniongyrchol.

v. Codi taliadau ar Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cefnogi a chyfrifon masnachu eu debydu â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiad i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- colledion ailbrisiu a lleihad yng ngwerth asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Adbrisiu wrth gefn y gall y colledion gael eu dileu yn eu herbyn
- amorteiddio asedau sefydlog annirweddol i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i ariannu dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae gofyn iddo roi cyfraniad ariannol o referniw tuag at leihad yn ei ofyniad benthycy cyffredinol sy'n gyfystyr â swm a gyfrifir ar sail darbodus a benderfynir gan y Cyngor yn unol â chanllaw statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio eu disodli gan gyfraniad ym Malans Cronfa'r Cyngor / Balans CRT drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

vi. Buddiannau Gweithwyr**Buddiannau'n daladwy yn ystod cyflogaeth**

Telir buddion gweithwyr tymor byr fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, absenoldeb salwch a threuliau yn fisol a'u codi ar sail cronïadau i linell wasanaeth perthnasol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Buddiannau Dod â Swydd i Ben

Mae buddiannau dod â swydd i ben yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad gan y swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol, ac yn cael eu codi ar sail cronïad i'r llinell gwasanaeth addas yn unol â'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn gynt na phryd na chaiff yr awdurdod bellach dynnu'r cynigion buddion yn ôl neu bryd y bydd yr awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Lle bydd buddiannau dod â swydd i ben yn cynnwys codi pensiynau, mae darpariaethau statudol yn gofyn i falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn Natganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen dyraniadau i a gan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddion pensiwn wrth ddod â swydd i ben, a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau ar ôl cyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita neu ar ran yr Adran Addysg (DfE).
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Darparodd y ddau gynllun fuddiannau wedi'u diffinio i aelodau (cyfandaliadau a phensiynau ymddeoliad), a enillwyd gan weithwyr sydd wedi gweithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr athrawon yn golygu na all y rhwymedigaeth i'r buddiannau hyn gael eu pennu ar y Cyngor fel arfer. Cyfrifir y cynllun felly fel pe bai'n gynllun cyfrannu wedi'i ddiffinio, ac nid yw'r Fantolen yn nodi unrhyw rwymedigaeth i dalu'r buddiannau hyn yn y dyfodol. Caiff llinellau Ysgolion ac Addysg & Gwasanaethau Plant yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr eu codi gyda chyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Pensiynau Athrawon yn y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Caiff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei gyfrif fel cynllun buddiannau wedi'i ddiffinio:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Clwyd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy ddefnyddio'r dull uned wedi'i rhagamcanu – h.y. asesiad o daliadau'r dyfodol a wneir mewn perthynas â

buddiannau ymddeol a enillir gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiad gweithwyr ac ati, ac amcangyfrifon enillion wedi'u rhagamcanu ar gyfer gweithwyr cyfredol.

- Mae rhwymedigaethau yn cael disgownt i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar gynnyrch gwerth y farchnad ar y dyddiad adrodd ar fondiau corfforaethol o ansawdd uchel.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd sy'n cael eu priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen am eu pris teg:
 - gwarannau wedi'u dyfynnu – pris cynnig cyfredol
 - gwarannau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
 - gwarannau unedol – pris cynnig cyfredol
 - eiddo – gwerth y farchnad.
- Caiff y newid yn rhwymedigaeth pensiynau net ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillir eleni - wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau roedd y gweithwyr yn gweithio iddynt
- cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau yn codi o benderfyniadau'r flwyddyn hon y mae eu heffeithiau yn ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol – wedi'i debydu i'r Arian Dros Ben neu'r Diffyg mewn Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gorfforaethol & Amrywiol.
- Llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net, h.y. cost llog net ar gyfer y awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn yr atebolrwydd buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigl amser, wedi'i godi i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn unol â Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff hwn ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd ostyngol a ddefnyddiwyd i fesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod at y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod, gan ystyried unrhyw newid yn y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a budd-dal.

Ail-fesur yn cynnwys

- Adenillion ar asedau cynlluniau - ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net ar yr atebolrwydd buddiannau diffiniedig net - tâl i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall
- Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad ydyw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwaraidd wedi diweddarau eu rhagdybiaethau - wedi'u codi i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall.

Cyfraniadau wedi'u talu i Gronfa Bensiwn Clwyd – arian parod wedi'i dalu fel cyfraniadau gweithiwr i'r gronfa bensiwn.

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn i Falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod dyraniadau i a gan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn, felly'n mesur yr effaith fuddiol ar Gronfa'r Cyngor sydd angen cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llifoedd arian yn hytrach, na buddiannau a enillir gan weithwyr.

Buddiannau â Disgresiwn

Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn, mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir iddynt godi o ganlyniad i roi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon), yn cael eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad, ac yn cael ei gyfrif drwy ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

vii. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod rhoi gwybod a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth amodau a fodolodd ar ddiwedd y cyfnod rhoi gwybod – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod rhoi gwybod - nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith faterol, gwneir datgeliad yn nodiadau'r natur o ddigwyddiadau a'u heffaith ariannol fel y cawsant eu hamcangyfrif.

Nid yw digwyddiadau a gynhaliwyd ar ôl dyddiad awdurdodi'r cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

viii. Offerynnau Ariannol

Dyledion Ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg ac yn cael eu cario ar gost wedi'u hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd log effeithiol yw'r gyfradd sy'n union ddisgownt o'r taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn, i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol. Ar gyfer yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Mae'r enillion a cholledion ar adbrynu neu setlo benthyciadau yn gynnar yn cael eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn Natganiad Incwm a Gwariant cynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu'n digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu yn ôl eu trefn o gost wedi'i amorteiddio y benthyciad newydd neu'n un wedi'i addasu, ac mae'r ysgrifennu i lawr i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad drwy addasu'r gyfradd log effeithiol. Fodd bynnag, yn 2018/19 gyda chyflwyniad SAARh 9, mae'r Cyngor wedi gorfod ail-gyfrifio swm cario'r benthyciad wedi'i addasu ar 1 Ebrill 2018 gan ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol gwreiddiol. Mae'r newid wedi arwain at gredyd i'r D.I. & G.C. a sefydlu cronfa newydd. Bydd y cynnydd mewn taliadau llog dros weddill cyfnod y benthyciad yn golygu y bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i ariannu'r cynnydd hwn.

Lle mae premiymau neu ddisgowntiau wedi cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o ledaenu'r enillion neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu. Mae'r cysoniad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Dosberthir asedau ariannol yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r awdurdod yn dal asedau ariannol a fesurir ar:

- gost wedi'i hamorteiddio

Model busnes yr awdurdod yw dal buddsoddiadau i gasglu llifau arian parod cytundebol. Felly dosberthir asedau ariannol fel costau wedi'u hamorteiddio.

Model Colli Credyd Disgwyliedig

Mae'r awdurdod yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio, naill ai ar sail 12 mis neu oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn berthnasol i symiau derbyniadwy prydles ac asedau contract. Dim ond colledion oes sy'n cael eu cydnabod ar gyfer symiau derbyniadwy masnach sydd gan yr awdurdod.

Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r disgwyliad na fydd llif arian yn y dyfodol yn digwydd oherwydd gallai'r benthyciwr fethu â chyflawni ei rwymedigaethau. Mae Risg Credyd yn chwarae rhan hanfodol wrth asesu colledion. Lle mae risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i offeryn gael ei gydnabod i ddechrau, asesir colledion ar sail oes. Lle nad yw'r risg wedi cynyddu'n sylweddol neu'n parhau i fod yn isel, asesir colledion ar sail colledion disgwyliedig 12 mis.

Mesuriadau Gwerth Teg Asedau Ariannol

Gweth teg ased yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesuriadau gwerth teg asedau ariannol yr awdurdod yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- offerynnau gyda phirisau marchnad a ddyfynnir - pris y farchnad
- offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a diffiniol - dadansoddiad llif arian goostyngol.

Caiff y menbynnau i'r technegau mesur eu categorio yn unol a'r tair lefel ganlynol:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ddyledion yr un fath y gall yr awdurdod gael mynediad iddynt ar y dyddiad mesur
- Lefel 2 – mewnbynnau gwahanol i'r prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi eu cynnwys o fewn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased neu ddyled, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased neu ddyled

Asedau Ariannol a Fesurwyd ar Gost Wedi'i Hamorteiddio

Cydnabyddir asedau ariannol a fesurwyd ar gost wedi'i hamorteiddio ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg. Maent yn cael eu mesur wedyn ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol sydd gan yr awdurdod (megis buddsodiadau tymor byr a thymor hir) mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif dderbyniadwy sy'n ddyledus (ynghyd â llog cronedig) a'r llog a gerdydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy am y flywddyn yn y cytundeb benthyciad.

Pan amharwyd ar asedau oherwydd y tebygolrwydd sy'n codi o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei ysgrifennu i lawr a thâl yn cael ei godi ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw) neu'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hwn. Mae colled yr amhariad yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio ar gyfradd log wreiddiol yr ased.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ddatgydnabod yr ased yn cael ei gredydu neu ei ddebydu i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Benthyciadau Meddal

Mae benthyciad meddal yn fenthyciad y mae'r Cyngor wedi'i roi i gorff allanol am gyfradd llog sy'n is na chyfradd y farchnad. Yn yr achos hwn, mae angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Fodd bynnag, os ystyrir bod maint y trafodyn yn de-minimis, nid oes angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Mae'r Cyngor wedi gosod y lefel

de-minimis hon am £150k ar gyfer bob benthyciad unigol a roddir, neu lle nad yw'r addasiad gwerth teg yn faterol.

ix. Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau

Os ydynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti a rhoddion yn cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor pan mae sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u hatodi i'r taliadau
- y derbynir y grant neu'r cyfraniadau.

Nid yw'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bydd amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Amodiad yw'r amodau sy'n nodi bod y manteision economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sydd wedi'u hymgorffori yn yr ased a gafwyd drwy ddefnyddio'r grant neu gyfraniad sy'n gorfod cael ei ddefnyddio gan y derbynnydd fel y nodir, neu bydd yn rhaid dychwelyd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddwyd fel blaendal fel grantiau a chyfraniadau lle nad yw'r amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwr. Pan fo'r amodau wedi'u bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau referniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli), neu Drethiant ac Incwm Grant nad ydyw'n Benodol (grantiau referniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad ydyw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle bydd wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

x. Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth Diriaethol ac Anniriaethol (disgrifir yn y crynodeb hwn o bolisiau cyfrifo sylweddol fel Asedau Treftadaeth)

Cedwir Asedau Treftadaeth y Cyngor mewn nifer o safleoedd, gan gynnwys Amgueddfa'r Rhyl (o fewn Llyfrgell y Rhyl). Nantclwyd Y Dre, Carchar Rhuthun a Phlas Newydd sydd gan gasgliadau parhaol, ond hefyd mae'r adeiladau eu hunain yn cael eu trin fel Asedau Treftadaeth. Mae pob safle (ac eithrio Nantclwyd Y Dre) yn cael eu hachredu o dan gynllyun Achredu Amgueddfeydd Cyngor Celfyddydau Lloegr. Cedwir hachredu o casgliadau o Asedau Treftadaeth i gefnogi prif amcan amgueddfeydd y Cyngor h.y. gofalu am dreftadaeth Sir Ddinbych, ei gwneud yn hygyrch i bawb drwy ysbrydoli, dysgu a mwynhau.

Cydnabyddir Asedau Treftadaeth a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion

ailbriso) yn unol â pholisïau cyfrifo'r Cyngor ar eiddo, cyfarpar ac offer. Fodd bynnag, mae rhai o'r rheolau mesur wedi'u llacio mewn perthynas ag Asedau Treftadaeth wrth i'r Cyngor ystyried y byddai cael prisiadau ar gyfer casgliadau yn cynnwys cost anghyfartal o'i gymharu â'r buddion a ddarperir i ddefnyddwyr datganiadau ariannol. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau a gedwir a'r diffyg mewn gwerthoedd tebyg. Caiif y casgliadau eu monitro yn unol â Pholisi Datblygu Casgladïau a gymeradwywyd o dan Achrediad Amgueddfeydd ac anaml y caiff eitemau eu hychwanegu yn ôl gweithdrefn benodol.

Nod yr holl waith gofal casgliadau yw cydymffurfio â safonau Achredu Amgueddfeydd. Ystyrir oes asedau'r casgliadau yn amhenodol oherwydd gwaith ataliol a gynhaliwyd gan Wasanaeth Treft-adaeth Sir Ddinbych, ac oherwydd natur yr eitemau dan sylw. Felly nid yw'n briodol i godi dibrisiad.

Mae'r Cyngor yn cadw at ganllawiau Achredu Amgueddfeydd ar waredu.

xi. Eiddo Buddsoddi

Eiddo Buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent a/neu adbrisant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

Mesurir Eiddo Buddsoddi ar y dechrau ar sail cost ac yn ddiweddarach ar sail gwerth teg, sef y pris a fuddai'n cael ei dderbyn i werthu ased o'r fath mewn trafodiad drefnus rhwng cyfranogwyr farchnad ar y dyddiad mesur. Fel ased heb ei hariannu, mesurwyd Adeiladau Buddsoddi ar y defnydd uchaf a'r gorau. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond fe'u hadbrisir yn flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae unrhyw enillion neu golledion yn cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn berthnasol i enillion a cholledion ar waredu.

Mae lefel gwariant de-minimis o £30k wedi'i osod ar gyfer Eiddo Buddsoddi, felly bydd unrhyw wariant is ddim yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Lle caiff ased ei ailbriso o dan £30k, bydd unrhyw wariant cysylltiedig a dibrisiad fel arfer yn cael ei ysgrifennu allan a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mae rhent a dderbynnir mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbriso a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly caiff enillion a cholledion eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau gwerthiant dros £10,000), i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

xii. Gweithrediadau ar y cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniadau lle mae partïon sydd â rheolaeth ar y cyd o'r trefniant â hawliau i asedau a rhwymedigaethau ar gyfer y cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r trefniant. Mae'r gweithgareddau a wneir gan y Cyngor ar y cyd â gweithredwyr eraill

yn golygu defnyddio asedau ac adnoddau'r gweithredwyr ar y cyd hynny. O ran ei gysylltiad ag ymgyrch ar y cyd, mae'r Cyngor fel cyd-weithredwr yn cydnabod:

- ei asedau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw asedau a ddelir ar y cyd
- ei rwymedigaethau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw rwymedigaethau a gafwyd ar y cyd
- ei refeniw o werthu ei gyfran o'r allbwn sy'n deillio o weithredu ar y cyd
- ei gyfran o'r refeniw o werthu'r allbwn sy'n deillio o weithredu ar y cyd
- ei gostau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw dreuliau y daethpwyd ar eu traws ar y cyd.

xiii. Prydlesau

Caiff prydlesau eu dosbarthu fel prydlesau cyllid, lle bydd telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol pob risg a gwobr sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, peiriannau neu offer gan y prydleswr i'r prydlesai. Caiff pob prydles arall ei dosbarthu fel prydles weithredu. Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladu, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân er mwyn eu dosbarthu.

Caiff trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl eu cyfrif dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Y Cyngor fel Prydlesai

Prydlesau Ariannol

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol taliadau isafswm y brydles, os ydynt yn is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei baru gan ddyled am y rhwymedigaeth i dalu'r prydleswr. Caiff costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor eu hychwanegu at swm cludo'r ased. Caiff premiymau a delir wrth ddechrau prydles eu rhoi wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles. Caiff rhenti amodol eu nodi fel treuliau yn y cyfnodau perthnasol. Caiff taliadau prydlesau eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles, a
- thâl cyllid (caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir dan brydlesau ariannol eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisiâu a ddefnyddir yn gyffredinol gydag asedau o'r fath, yn amodol ar godi tâl dibrisio dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol a amcangyfrifir yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i dalu dibrisiad neu ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth sy'n codi ar asedau ar brydles. Yn hytrach, gwneir cyfraniad doeth

blynyddol o gyllid refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor, drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesau Gweithredu

Caiff rhent a delir dan brydlesau gweithredu eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost y gwasanaethau sy'n manteisio ar ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer ar brydles.

Y Cyngor fel Prydleswr

Prydlesau Ariannol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu beiriannau neu offer, caiff yr ased perthnasol ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau neu Offer neu Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei ddiddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu), wedi' baru gan ased prydles (dyledwr hirdymor) ar y Fantolen.

Caiff rhent prydlesau derbyniadwy eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer - fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles yn gynnwys unrhyw breimiymau a dderbyniwyd, a
- incwm cyllid (caiff ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaiff yr enilliad a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth ei waredu ei ganiatáu drwy statud i gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae angen ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi'i dderbyn, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan gaiff y swm dyledus o ran ased y brydles ei setlo gan daliad rhent mewn blynyddoedd ariannol y dyfodol, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan dderbynnir rhent y dyfodol, defnyddir yr elfen ar gyfer y derbyniadau cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr dyledwr y brydles. Yn y cam hwn, caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau anghyfredol yn cael eu talu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Prydlesau Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo neu beiriant neu offer, caiff yr ased ei gadw yn y Fantolen. Caiff incwm rhentu ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

xiv. Refeniw Anghyfnwid**Cydnabod Refeniw o Draffodion Anghyfnwid**

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o draffodion anghyfnwid eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 Cyfrifo Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ar wahân i pan gânt eu dehongli neu eu haddasu i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus fel y cânt eu hegluro yn y Cod a/neu IPSAS 23, "Refeniw o Draffodion Digyfnwid (Trethi a Throsglwyddiadau).

Traffodion trethi

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o draffodion trethi eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r digwyddiad trethadwy'n digwydd, cyn belled â bod yr asedau yn bodloni diffiniad ased ac yn bodloni meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel ased.

Traffodion anhrethadwy

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o draffodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod y bydd y trefniad trosglwyddo yn rhwymo. Ni chaiff gwasanaethau mewn nwyddau eu cydnabod. Pan fo trosglwyddiad yn amodol ar amodau sy'n golygu bod angen dychwelyd yr adnoddau a drosglwyddwyd os na chânt eu bodloni, bydd yr awdurdod yn cydnabod dyled nes i'r amod gael ei fodloni.

Sail Mesur Dosbarthiadau Refeniw Mawr o Draffodion Anghyfnwid

Caiff refeniw trethu ei fesur ar werth enwol arian parod, a chywerthoedd arian parod. Caiff asedau a refeniw a gydnabyddir o ganlyniad i drosglwyddiad eu mesur ar werth teg yr asedau a gydnabyddir ar ddyddiad y cydnabod:

- Caiff asedau ariannol eu mesur ar eu gwerth enwol oni bai bo gwerth amser arian yn berthnasol, a phryd hynny, defnyddir gwerth presennol, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ostyngol sy'n adlewyrchu'r risg cynhenid o gadw'r ased; a
- Caiff asedau anariannol eu mesur ar eu gwerth teg, a bennir drwy gyfeirio at werthoedd arsylladwy'r farchnad neu drwy arfarniad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Caiff symiau derbyniadwy eu cydnabod pan fo trefniant trosglwyddo sy'n rhwymo ar waith ond nad yw arian parod neu asedau eraill wedi'u derbyn

xv. Addasiadau Cyfnodau Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnodau blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo eu cyfrif yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd presennol a'r dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau i bolisiau cyfrifo oni bai bo angen drwy arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i ddefnyddio bob amser.

Caiff gwallau materol yn ffigurau'r cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

xvi. Eiddo, Peiriannau ac Offer

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac y'u cedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail cronïadau, cyn belled â'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial y gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal potensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu ato (h.y. trwsio a chynnal a chadw) ei godi fel gwariant pan fydd yn digwydd.

Mae lefel gwariant de-minimis o £30k wedi'i osod ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer, felly bydd unrhyw wariant is ddim yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Lle caiff ased ei ailbriso o dan £30k, bydd unrhyw wariant cysylltiedig a dibrisiad fel arfer yn cael ei ysgrifennu allan a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mesuriad

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, gan gynnwys:

- pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu yn y modd y mae'r rheolwyr yn ei fwriadu
- amcangyfrif cychwynnol costau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae wedi'i leoli arno.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ddaw tra bo asedau yn cael eu hadeiladu.

Bernir bod cost asedau a gaffaelir ar wahân i'w prynu yn werth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan fo ased yn cael ei gaffael drwy gyfnod, cost y caffaeliad yw swm cludo'r ased a roddir gan y Cyngor.

Yna caiff asedau eu cludo yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd – cost hanesyddol dibrisiedig
- asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- anheddau – gwerth cyfredol, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol
- pob ased arall – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol).

Pan nad oes tystiolaeth o'r farchnad o werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir costau amnewid dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth cyfredol.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo, oes ddefnyddiol fyr neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol.

Mae adbriso dilynol o ran asedau anghyfredol wedi'u cynllunio fel rhan o asesiad parhaus er mwyn i bob ased gael ei adbriso cyn pen pum mlynedd o'i brisiad blaenorol, er y bydd newidiadau materol i brisiad asedau yn cael eu haddasu yn y cyfnod dros dro wrth iddynt ddigwydd. Ail-brisiwyd 100% o'r Tai Cyngor yn ystod 2021/22. Caiff cynnydd o ran prisiadau eu paru gan gredydau i'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i gydnabod enillion na wireddwyd. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi o wrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth o'r blaen.

Pan nodir lleihad o ran gwerth, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn yn cynnwys enillion adbriso a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae enillion a godwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Amhariad

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai amhariad fod ar ased. Pan fo arwyddion yn bodoli a phan amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn faterol, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif, a phan fo hyn yn llai na swm cludo'r ased, caiff swm amhariad ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan gaiff colled amhariad ei wrthdroi o ganlyniad, caiff y gwrthdroi ei gredydu i'r

llynell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiad a fyddai wedi'i godi pe na bai'r golled wedi'i chydabod.

Dibrisiad

Darperir ar gyfer dibrisiad ar bob ased Eiddo, Peiriannau ac Offer gan ddyraniad systematig eu symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau nad oes ganddynt oes ddefnyddiol feidraidd y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliad ac asedau cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiad ar y sail ganlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill - dyraniad llynell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo yn ôl amcangyfrif y prisiwr
- cerbydau, peiriannau, dodrefn ac offer – dull llynell syth
- isadeiledd – dyraniad llynell syth dros 40 mlynedd.

Ni chodir dibrisiant yn ystod y flwyddyn caffaeliad neu warediad.

Cydrannu

Mae'n bolisi gan y Cyngor lle mae eitem faterol o eiddo, peiriannau ac offer gyda chydannau mawr ble mae'r gost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm costau'r eitem, mae'r cydrannau yn cael eu dibrisio ar wahân; mae'r gofynion yn berthnasol at wariant gwella a dynnir, gwariant caffael a dynnir, ac ailbrisiadau a wnaed. Mae lefel perthnasedd de-minimis o £2.5miliwn o werth yr ased wedi ei osod. Os yn llai, ni fydd eitemau unigol o eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu hystyried ar gyfer cydrannu; Bydd elfennau arwyddocaol yn cael eu hystyried fel rhai y mae eu cost gyfredol yn 20% neu fwy o gyfanswm cost gyfredol yr ased, a'u categoreiddio fel a ganlyn yn seiliedig ar arwyddocâd, bywyd defnyddiol a dull dibrisiant:

- Aradeiledd ac Isadeiledd
- Gorffeniadau Mewnol a Ffitiadau
- Gwasanaethau

Mae tir yn cael ei adnabod fel cydran ar wahân yn ei rinwedd ei hun.

Caiff enillion adbriso eu dibrisio hefyd, gyda swm sydd gyfwerth â'r gwahaniaethau rhwng dibrisiad gwerth presennol a godir ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a gânt eu Dal i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cludo ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a gaiff ei Ddal i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbriso'n syth cyn eil ailddosbarthu ac yna caiff ei gario ar y swm isaf a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo lleihad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llynell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion o ran gwerth teg eu cydnabod

hyd at swm unrhyw golledion blaenorol yn unig a gydnabyddir yn y Gwarged neu Golled ar Darpariaeth Gwasanaethau. Ni chaiff dibrisiad ei godi ar Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu. Os na fydd asedau yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu bellach, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol a'u prisio ar swm isaf eu swm cludo cyn iddynt gael eu dosbarthu fel Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu; cânt eu haddasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddio neu adbriso a fyddai wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adenilladwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Ni chaiff asedau a gaiff eu gadael neu eu sgrapio eu hailddosbarthu fel Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddatgomisiynu, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriant, Offer neu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei diddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff derbyniadau o warediadau (os oes rhai), eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu). Caiff unrhyw enillion adbriso a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad mwy na £10,000 eu dosbarthu fel derbyniadau cyfalaf. Mae angen i dderbynebau gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir eu defnyddio, neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia (y Nawdd Cyfalaf Gofynnol). Caiff derbynebau eu hadfeddu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael ei dalu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

xvii. Darpariaethau a Ymrwymadau Dibynnol

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, y mae'n fwy na thebyg, angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm y rhwymedigaeth honno.

Codir tâl am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad Mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, fe'u codir o'r ddarpariaeth sydd eisoes yn y Fantolen. Caiff setliadau a amcangyfrifwyd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol - pan

ddaw'n llai na thebygol y bydd bellach angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu fod setliad is na'r hyn a ddisgwylid yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei dychwelyd a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl i beth, neu'r cyfan, o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth gael ei adfer gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), dim ond pan fo'n bron yn sicr y caiff ad-daliad ei dderbyn os bydd y Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y caiff hyn ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol.

Ymrwymadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw ymrwymadau dibynnol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen ond yn cael eu datgan mewn nodyn i'r cyfrifon.

xviii. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol wrth gefn er dibenion polisïau yn y dyfodol neu ar gyfer treuliau annisgwyl. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy ddsorannu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Pan fydd gwariant i'w ariannu o Gronfa wrth Gefn, mae'n cael ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn yr Arian Dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna caiff y Gronfa wrth Gefn ei neilltuo yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oes tâl net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

xix. Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud

Codir am wariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei wneud yn gyfalaf o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant i gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol yn ystod y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chostau'r gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycy, yna bydd trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau y codwyd amdanynt yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oed unrhyw effaith ar lefel treth y cyngor.

xx. TAW

Caiff TAW taladwy ei gynnwys fel gwariant dim ond cyhyd ac nad oes modd ei adfer gan Adran Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW derbyniadwy ei eithrio o'r incwm.

40. Addasiad Cyfnod Blaenorol

Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae colled ailbrisiad neu amhariad wedi'i gydnabod yn yn y gwarged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau, yna dylid defnyddio ennill ailbrisiad ar yr un ased i wrthdroi'r golled neu'r amhariad hwnnw.

Dim ond lle nad oes unrhyw golled ailbrisiad neu amhariad blaenorol, neu lle mae'r ennill yn uwch na cholled flaenorol, y dylai'r ennill ailbrisiad / amhariad, neu swm yr ennill sy'n fwy nag unrhyw golled neu amhariad blaenorol, gael ei gymryd i'r gronfa ailbrisiad.

Yn ystod archwiliad 2021-22 nododd Archwiliad Cymru, er bod y Cyngor wedi defnyddio enillion ailbrisiad i wrthdroi colledion ailbrisiad blaenorol, nid yw wedi defnyddio enillion ailbrisiad i wrthdroi amhariadau blaenorol.

Felly, adolygodd y Cyngor gofrestrau asedau blynyddoedd blaenorol i nodi amhariadau blaenorol y dylid bod wedi'u gwrthdroi gan enillion ailbrisiad dilynol ar yr un asedau.

Canlyniad yr adolygiad hwn yw bod angen addasiad cyfnod blaenorol rhwng y gronfa ailbrisiad a'r cyfrif addasiad cyfalaf ar gyfer amhariadau sydd bellach wedi'u gwrthdroi gan enillion ailbrisiad dilyno Mae'r fantolen ar 1 Ebrill 2020 wedi'i hailddatgan i adlewyrchu'r addasiad hwn.

Cafodd amhariadau ychwanegol eu gwrthdroi gan enillion ailbrisiad yn ystod 2020-21. Mae'r fantolen ar 31 Mawrth 2021 wedi'i hailddatgan i adlewyrchu'r addasiad hwn. Mae'r DIGC ar gyfer 2020-21 hefyd wedi'i ailddatgan i adlewyrchu effaith yr addasiad hwn ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau.

Mae gwrthdroad amhariad yn cael ei wrthdroi allan o'r DIGC (fel rhan o 'golledion amhariad ar asedau nad ydynt yn gyfredol a godir i'r gronfa ailbrisiad'), sy'n golygu bod yr effaith net ar gyfanswm yr I&G cynhwysfawr yn ddim.

Y Fantolen

	Fel y dywedwyd yn flaenorol 1 Ebrill 2020 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 1 Ebrill 2020 £000
Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn	(116,349)	8,231	(108,118)
Cyfrif Addasiad Cyfalaf	(161,510)	(8,231)	(169,741)

	Fel y dywedwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 31 Mawrth 2021 £000
Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn	(116,565)	8,331	(108,234)
Cyfrif Addasiad Cyfalaf	(171,622)	(8,331)	(179,953)

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

	Gwariant Gros		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Hamdden - ADM	11,412	(100)	11,312
Colledion Amhariad ar Asedau Anghyfredol a Godwyd i'r Gronfa Ailbrizio Wrth Gefn	3,879	100	3,979

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu

	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Nodyn 1)		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Hamdden - ADM	1,846	(100)	1,746

Datganiad Llif Arian

	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(18,970)	(100)	(19,070)
Addasiadau i Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod	(12,717)	100	(12,617)

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

	Cronfa'r Cyngor		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(16,327)	(100)	(16,427)
Addasiadau Rhwng Sail Gyfrifo a Sail Ariannu Dan Reoliad	3,875	100	3,975

	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	10,486	100	10,586
Addasiadau Rhwng Sail Gyfrifo a Sail Ariannu Dan Reoliad	(614)	(100)	(714)

NODYN 5

	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Dibrisiant, amhariad a cholledion ailbriso	30,579	(100)	30,479

NODYN 6

	Cronfa'r Cyngor		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Gwrthdroi cofnodion a gynhwyswyd yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf	(3,054)	100	(2,954)

	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Gwrthdroi cofnodion a gynhwyswyd yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf	12,036	(100)	11,936

NODYN 22

	Balans agoriadol		
	Fel y dywedwyd yn flaenorol 1 Ebrill 2020 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 1 Ebrill 2020 £000
Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn	(116,349)	8,231	(108,118)
Cyfrif Addasiad Cyfalaf	(161,510)	(8,231)	(169,741)

	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn	(4,661)	100	(4,561)

	Addasiadau i adnoddau refeniw		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Cyfrif Addasiad Cyfalaf	12,036	(100)	11,936

NODYN 23

	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau Dibrisiant a nam	(18,970)	(100)	(19,070)
	(29,039)	100	(28,939)

MANTOLEN GRŴP

	Fel y dywedwyd yn flaenorol 1 Ebrill 2020 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 1 Ebrill 2020 £000
Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn	(116,349)	8,231	(108,118)
Cyfrif Addasiad Cyfalaf	(161,510)	(8,231)	(169,741)

	Fel y dywedwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 31 Mawrth 2021 £000
Cronfa Ailbrisió Wrth Gefn	(116,565)	8,331	(108,234)
Cyfrif Addasiad Cyfalaf	(171,622)	(8,331)	(179,953)

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Grwp

	Gwariant gros		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Hamdden - ADM	14,909	(100)	14,809
Colledion Amhariad ar Asedau Anghyfredol a Godwyd i'r Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn	3,879	100	3,979

Datganiad Llif Arian Grwp

	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Net (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(17,916)	(100)	(18,016)
Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod	(19,274)	100	(19,174)

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn Grwp

	Gwariant gros		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Addasiadau Rhwng Sail Gyfrifo a Sail Ariannu Dan Reoliad	(25,433)	(100)	(25,533)
	3,875	100	3,975

	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio		
	Fel y nodwyd yn flaenorol 2020/21 £000	Addasiad £000	Ailddatganwyd 2020/21 £000
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	10,486	100	10,586
Addasiadau Rhwng Sail Gyfrifo a Sail Ariannu Dan Reoliad	(614)	(100)	(714)

Adran 4: Datganiadau a Nodiadau Atodol i'r Datganiadau Atodol**Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai**

2020/21 £000		Nodyn	2021/22 £000
	Gwariant		
4,700	Trwsio a chynnal		5,383
2,396	Goruchwyllo a rheoli		2,418
5	Rhenti, cyfraddau, trethu a ffioedd eraill		19
9,596	Dibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	5	(11,538)
31	Costau rheoli dyledion		36
145	Symudiad mewn darpariaeth dyledion drwg		174
16,873	Cyfanswm Gwariant		(3,508)
	Incwm		
(15,783)	Rhenti anheddau (Gros)		(15,926)
(175)	Rhenti nad ydynt ar gyfer anheddau (Gros)		(177)
(15,958)	Cyfanswm incwm		(16,103)
	Gwariant net Gwasanaethau y Cyfrif Refeniw Tai fel sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
915			(19,611)
58	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r Gwariant Corfforaethol		58
973	Gwariant Net y Gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai		(19,553)
	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r incwm a gwariant sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
18	Costau Gweinyddu Pensiwn (Enillion) neu golledion ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol Cyfrif Refeniw Tai.	6	19
24			(300)
2,727	Llog yn daladwy a thaliadau tebyg		2,678
(1)	Incwm llog a buddsoddiadau		(2)
227	Llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau net diffiniedig (ased)	6	221
(6,611)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau eraill a gafwyd		(6,944)
(2,643)	(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai		(23,881)

Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai

2020/21 £000		2021/22 £000	
(2,667)	Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 1 Ebrill		(2,756)
(2,643)	(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai.	(23,881)	
2,579	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau (gweler isod)	24,475	
(64)	(Cynnydd) neu leihad net cyn trosglwyddo i neu o'r cronfeydd wrth gefn		594
(25)	Trosglwyddiadau i neu (o'r) cronfeydd wrth gefn		106
(89)	(Cynnydd) neu leihad yn y flwyddyn ar y Cyfrif Refeniw Tai		700
(2,756)	Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth		(2,056)
	Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu dan y Rheoliadau:		
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		
	<u>Gwrthdroad eitemau sydd wedi eu debydu neu eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>		
(9,596)	Y tâl a godir am ddibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	11,538	
6,611	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd	6,944	
(144)	Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd wrth waredu neu werthu fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(2,000)	
	<u>Cynnwys eitemau nad ydynt wedi eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>		
3,079	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf	3,096	
2,919	Gwariant Cyfalaf y codir tâl yn erbyn Balansau'r Cyfrif Refeniw Tai	3,189	22,767
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf		
120	Trosglwyddiad enillion gwerthiannau arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai	2,300	2,300
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol		
0	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng costau ariannu y codir tâl amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r costau ariannu y codir tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.	0	0
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau		
(946)	Gwrthdroad eitemau mewn perthynas â buddiannau ymddeol sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai.	(1,188)	
545	Cyfraniadau pensiwn gweithiwr yn daladwy yn y flwyddyn	574	(614)
	Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Absenoldeb Cronnol		
(9)	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng tâl swyddogion y codir amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai ar sail gronnus, a'r tâl y codir amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.	22	22
2,579	Cyfanswm yr addasiadau		24,475

Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Atodol**1. Stoc Tai**

Roedd cyfanswm stoc tai y Cyngor fel a ganlyn:

2020/21 Nifer yr Eiddo		2021/22 Nifer yr Eiddo
1,812	Tai	1,818
944	Fflatiau	883
616	Byngalos	612
3,372	Cyfanswm	3,313

Yn ystod y flwyddyn, prynnwyd 13 adeilad Hawl i Brynu blaenorol, tynnwyd 7 eiddo o'r stoc dai a dadgomisiynwyd 65 eiddo (Sun Terrace a Maes Emlyn).

2. Ôl-ddyledion Rhent

Ar 31 Mawrth 2022, roedd ôl-ddyledion rhent y tenantiaid yn £1,097k, (£958k ar 31 Mawrth 2021) sy'n cynrychioli 6.89% o'r incwm net rhent sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn. Dilewyd ôl-ddyledion gwerth cyfanswm o £46k yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd cyfraniad i'r ddarpariaeth Dyledion Drwg ac Amheus o £174k yn ystod y flwyddyn a'r balans ar ddiwedd y flwyddyn oedd £869k.

3. Derbyniadau Cyfalaf

Derbyniwyd derbynneb cyfalaf o £2.3m o werthiant tir yn 2021/22, £120k am annedd yn 2020/21.

4. Dadansoddiad Gwariant Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai

Yn ystod 2021/22, roedd gwariant cyfalaf o £15,715k ar welliannau i stoc tai y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i'r stoc presennol a buddsoddiad mewn safleoedd i hwyluso datblygiad stoc tai ychwanegol. Mae hefyd yn cynnwys caffaeliad stoc tai blaenorol. Mae'r cyfanswm gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan sawl ffynhonnell: Y Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (grant y llywodraeth), cyfraniadau refeniw Uniongyrchol y Cyfrif Refeniw Tai, Benthycia Darbodus a grantiau a chyfraniadau eraill fel y nodwyd yn y tabl drosodd.

2020/21 £000	Gwariant Cyfalaf Tai	2021/22 £000
175	Rheoli Ansawdd Perfformiad – Prosiect TG	4
3,577	Caffaeliadau	7,668
5,982	Cynlluniau Gwella a wedi'i gynllunio	8,033
0	Gwariant Sipsiwn a Theithwyr	10
9,734	Gwariant yn y Flwyddyn	15,715
	<i>Wedi'i ariannu gan:</i>	
2,401	Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (Grant)	2,381
55	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiol	2,300
2,919	Cyfraniadau Refeniw Cyfrif Refeniw Tai Uniongyrchol	3,190
886	Benthycia Darbodus	5,894
2,824	Grantiau eraill	1,887
649	Cyfraniadau	63
9,734	Cyfanswm	15,715

5. Dibrisiant a Cholledion Amhariad ac Ailbrisió Asedau Anghyfredol

Yn unol â'r fframwaith Cyfrifo Adnoddau, bydd ffioedd dibrisiant, amhariad a cholledion adbrisió wedi'u cynnwys yn y Cost Gwasanaethau Net Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r ffi dibrisio yn seiliedig ar werth y Fantolen o'r anheddau ac asedau eraill ac mae'n adlewyrchu'r asedau sy'n bodoli ac a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth, yn hytrach na'r arian a wariwyd arnynt bob blwyddyn. Mae'r amhariad a'r colledion adbrisió yn deillio o ganlyniad i'r broses adbrisió. Mae'r ffi dibrisio, amhariad a cholledion adbrisió'n cael eu cildroi o Gostau Net Gwasanaethau drwy Symudiad ar Ddatganiad CRT. Mae'r cildroad yn dod â phris net cyfalaf i'r CRT yn ôl i bris statudol, sy'n cael ei gyfrifo yn unol ag Penderfyniad Cyffredinol ynghylch Eitem 8 Credyd ac Eitem 8 Debid (Cymru) 2015. Nid yw'r ffioedd dibrisio a cholledion amhariad ac ailbrisió yn cael effaith ar falansau'r Cyfrif Refeniw Tai.

Mae cyfanswm ffioedd dibrisio a cholledion amhariad ac adbrisió ar gyfer 2021/22 yn cael eu dangos isod:

2020/21 £000		2021/22 £000
2,105	Asedau Gweithredol – Anheddau	3,001
171	Asedau Gweithredol – Offer ac Isadeiledd	64
2,276	Cyfanswm Dibrisiant	3,065
7,320	Colledion Amhariad ac Adbrisiad	(14,603)
9,596	Cyfanswm Dibrisiad Amhariad a Cholledion Ailbrisiad CRT	(11,538)

6. Trafodion yn Ymwneud â Buddion Ymddeol

Mae cost buddiannau ymddeol wedi'i gydnabod yng nghost net gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau. Ond, mae'r ffi i'r Cyfrif Refeniw Tai yn seiliedig ar gyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly bydd gwir gost y buddion ymddeol yn cael eu dileu yn y Datganiad Symudiad Cyfrif Refeniw Tai.

Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad Symudiadau Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn.

2020/21 £000	<u>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>	2021/22 £000
	<u>Cost net y Gwasanaethau</u>	
701	Costau Gwasanaeth Cyfredol	948
0	Costau Gwasanaeth y Gorffennol	0
	<u>Gwariant Gweithredu Net</u>	
18	Treuliau Gweinyddu Pensiwn	19
227	Gwariant Llog Net	221
946	Ffi net i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,188

<u>Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai</u>		
(946)	Dileu ffioedd net ar gyfer buddion ymddeol yn unol â'r Cod	(1,188)
545	Cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i Gynllun Cronfa Bensiwn Clwyd	574

Adran 5 - Cyfrifon Grŵp

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol sydd â diddordebau materol mewn is-gwmnïau, partneriaid a mentrau ar y cyd yn paratoi Cyfrifon Grŵp yn ogystal â chyfrifon endid sengl.

Is-gwmni yw endid, yn cynnwys endid anghorfforedig, megis partneriaeth sydd yn cael ei reoli gan endid arall (y Cyngor), sy'n cael ei alw'n rhiant.

At ddibenion Cyfrifon Grŵp mae'r Cyngor wedi cydgrynhoi cyfrifon Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

Mae'r Cyfrifon Grŵp yn cynnwys:

- Datganiad Symudiad yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Grŵp
- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp
- Mantolen y Grŵp
- Datganiad Llif Arian y Grŵp

Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig

Fe sefydlwyd Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ar 28 Awst 2019 i reoli a chyflwyno nifer o gyfleusterau, swyddogaethau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hamdden.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol nid er elw cyfyngedig drwy warant sydd ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor, a sefydlwyd o dan adran 95 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae gan y Cyngor lefel uchel o reolaeth dros Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig fel cyfranddaliwr sengl sydd yn cymeradwyo:

- newid mewn cysylltiad â'i erthyglau cymdeithasau ac
- unrhyw newidiadau i natur y busnes neu ddechrau unrhyw fusnes newydd
- cynllun busnes blynyddol
- unrhyw ddatblygiad o fenthyciadau neu gymeradwyo unrhyw gredyd
- unrhyw fenthyg yn erbyn asedau
- penodi cyfarwyddwr i'r bwrdd neu gael gwared arnynt

Mae rhagor o wybodaeth am Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ar gael ar y wefan <https://hamddensirddinbych.co.uk>

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn prydlesu saith canolfan hamdden, atyniad Ymwelwyr SC2, Bwyty a Bar 1891, Theatr Pafiliwn Y Rhyl, Neuadd y Dref Y Rhyl, Canolfan Bowlio Gogledd Cymru, Nova, Canolfan Grefft Rhuthun a Café R a Phafiliwn Llangollen am rent rhad gan y Cyngor. Y genhadaeth yw cynnal lefelau uchel o iechyd a lles yn Sir Ddinbych trwy ddarparu cyfleoedd hamdden o ansawdd ac sy'n hygyrch.

Rheoli Risg

Mae'r berthynas rhwng y Cyngor a Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn cynnwys cynlluniau busnes sy'n cael eu llunio gan y cwmni a'u cymeradwyo gan Gabinet y

Cyngor. Mae hyn yn galluogi'r Cabinet i ddeall risg eang yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, ystyried risgiau penodol y gallai'r cwmni eu hwynebu ac asesu'r ffordd y mae'r cwmni yn rheoli ac yn lliniaru'r risgiau hynny.

Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol ac yn cael eu lliniaru a bod perygl y Cyngor i risg felly'n cael ei leihau. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i reoli a lliniaru peryglon penodol sy'n deilio o effaith Covid-19.

Mae perfformiad Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn cael ei graffu gan fwrdd Craffu priodol y Cyngor. Mae'r cwmni hefyd yn destun Archwilio Mewnol gan dîm Archwilio Mewnol y Cyngor, sydd hefyd yn rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli a bod tystiolaeth o fecanweithiau rheoli a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

Polisiâu Cyfrifyddol

Mae'r polisiâu cyfrifo ar gyfer Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn dilyn y rhai a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn y datganiadau endid sengl a fanylir ar dudalennau 82 i 98 ac eithrio'r canlynol:

Taliadau i Incwm a Gwariant

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn rhoi dibrsiad ar asedau y maent wedi'u caffael yn ystod y flwyddyn.

Pan fydd polisiâu cyfrifo Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn wahanol, mae addasiadau wedi'u gwneud ar ôl eu cyfuno i alinio unrhyw wahaniaeth wrth drin cyfrifon Cyngor Sir Ddinbych.

Datganiad Symudiad yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Grŵp

2021/22	Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Eraill y Gellir eu Defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod	Cronfeydd Wrth Gefn yr Is-gwmni	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 31 Mawrth 2021	(8,858)	(58,687)	(67,545)	22,072	(45,473)	2,991	(42,482)
* Addasiadau technegol				110	110	(1,240)	(1,130)
Balans ar 1 Ebrill 2021	(8,858)	(58,687)	(67,545)	22,182	(45,363)	1,751	(43,612)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(17,982)	(23,881)	(41,863)	(151,415)	(193,278)	(51)	(193,328)
Addasiadau rhwng Cyfrifon Grŵp a chyfrifon awdurdod	4,577	0	4,577	(1,063)	3,514	0	3,514
(Cynnydd)/Lleihad Net cyn y Trosglwyddiadau.	(13,405)	(23,881)	(37,286)	(152,478)	(189,764)	(51)	(189,815)
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	(2,350)	22,348	19,998	(19,998)	0	0	0
Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	16,311	(16,311)	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Lleihad yn 2021/22	556	(17,844)	(17,288)	(172,476)	(189,764)	(51)	(189,815)
Balans ar 31 Mawrth 2022	(8,302)	(76,531)	(84,833)	(150,294)	(235,127)	1,700	(233,427)

Datganiad Symudiad yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Grŵp

2020/21	Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Eraill y Gellir eu Defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod	Cronfeydd Wrth Gefn yr Is-gwmni	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Balans ar 31 Mawrth 2020	(7,469)	(41,720)	(49,189)	12,988	(36,201)	0	(36,201)
* Addasiadau technegol	0	0	0	(788)	(788)	1,141	353
Balans ar 1 Ebrill 2020	(7,469)	(41,720)	(49,189)	12,200	(36,989)	1,141	(35,848)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(25,533)	(2,643)	(28,176)	10,586	(17,590)	1,814	(15,775)
Addasiadau rhwng Cyfrifon Grŵp a chyfrifon awdurdod	9,106		9,106	0	9,106	35	9,141
(Cynnydd)/Lleihad Net cyn y Trosglwyddiadau.	(16,427)	(2,643)	(19,070)	10,586	(8,484)	1,850	(6,634)
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	3,975	(3,261)	714	(714)	0	0	0
Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	11,063	(11,063)	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Lleihad yn 2020/21	(1,389)	(16,967)	(18,356)	9,872	(8,484)	1,850	(6,634)
Balans ar 31 Mawrth 2021	(8,858)	(58,687)	(67,545)	22,072	(45,473)	2,991	(42,482)

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp

2020/21				2021/22		
Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
14,809	(8,664)	6,144	Hamdden - ADM	14,962	(10,141)	4,821
5,043	(1,410)	3,633	Cymunedau & Chwsmeriaid	4,069	(1,735)	2,334
35,698	(17,606)	18,092	Gwasanaethau Addysg & Phlant	39,486	(21,284)	18,202
83,066	(11,064)	72,002	Ysgolion	85,932	(15,455)	70,477
6,128	(549)	5,579	Gwella Busnes & Moderneiddo	6,295	(384)	5,911
3,491	(851)	2,640	Gwasanaethau Cyfreithiol, AD & Democrataidd	3,718	(855)	2,863
41,062	(32,817)	8,245	Corfforaethol & Amrywiol	42,534	(27,415)	15,119
7,519	(3,433)	4,086	Cyllid & Eiddo	10,075	(3,755)	6,320
38,345	(13,168)	25,177	Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau & Amgylchedd	39,989	(11,602)	28,387
21,222	(10,644)	10,578	Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd	24,400	(12,930)	11,470
74,473	(35,490)	38,983	Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	81,182	(38,300)	42,882
16,921	(15,957)	964	Tai Awdurdod Lleol (CRT)	(3,450)	(16,103)	(19,553)
347,777	(151,653)	196,124	Cost y Gwasanaethau	349,192	(159,960)	189,231

2020/21				2021/22		
Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
20,363	(180)	20,183	Gwariant Gweithredu Arall	20,400	(357)	20,043
17,295	(482)	16,813	Ariannu a Buddsoddi (Incwm) a Gwariant	16,058	(132)	15,926
	(251,136)	(251,136)	Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	0	(260,529)	(260,529)
385,435	(403,451)	(18,016)	(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	385,650	(420,978)	(35,329)
		0	Treuliau treth yr is-gwmni			(607)
		(18,016)	(Arian dros ben)/Diffyg y Grŵp			(35,936)
		(8,541)	(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar adbrisió Eiddo, Peiriannau ac Offer			(111,502)
		3,979	Colledion Amhariad ar Asedau Anghyfredol a Godir ar y Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn			35,680
		0	Treth yn ymwneud ag incwm cynhwysfawr arall			395
		15,909	Ail-fesuriad y ddyled budd net a ddiffiniwyd /(Ased)			(77,388)
		11,347	(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall			(152,815)
		(6,669)	Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr			(188,751)

Mantolen y Grŵp

31 Mawrth 2020 £000		31 Mawrth 2021 £000	31 Mawrth 2021 £000
94,977	Anheddau Cyngor	158,745	
286,645	Tir ac Adeiladau Eraill	319,675	
12,107	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	12,602	
139,219	Isadeiledd	144,649	
1,485	Asedau Cymunedol	1,485	
9,553	Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd	22,446	
4,450	Asedau Dros Ben na chânt eu Dal i'w Gwerthu	3,478	
548,436	Eiddo, Peiriannau ac Offer	663,080	
15,001	Asedau Treftadaeth	20,815	
6,311	Eiddo Buddsoddi	6,198	
0	Buddsoddiadau Hirdymor	0	
2,442	Dyledwyr Hirdymor	2,356	
572,190	Asedau Hirdymor		692,449
11,800	Buddsoddiadau Byrdymor	24,204	
3,544	Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu (<1bl)	1,076	
1,260	Rhestrau Eiddo	1,643	
45,888	Dyledwyr Byrdymor	60,618	
3,947	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	5,181	
66,439	Asedau Cyfredol		92,722
(27,127)	Benthyciadau Tymor Byr	(34,355)	
(36,698)	Credydwyr Byrdymor	(49,539)	
(363)	Darpariaethau	(162)	
(2,803)	Darpariaeth ar gyfer Absenoldebau Cronedig	(3,196)	
(1,740)	Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw	(4,244)	
(5,156)	Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw	(7,953)	
0	Rhwymedigaeth treth cyfredol	0	
(73,887)	Dyledion Presennol		(99,449)
(3,524)	Credydwyr Hirdymor	(1,352)	
(222)	Darpariaethau	(378)	
(204,781)	Benthyciadau Hirdymor	(197,237)	
(313,733)	Dyledion Hirdymor Eraill	(253,328)	
0	Atebolrwydd treth gohiriedig	0	
(522,260)	Dyledion Hirdymor		(452,295)
42,482	Asedau Net		233,427

31 Mawrth 2021 £000		31 Mawrth 2022 £000	31 Mawrth 2022 £000
(8,858)	Cronfa'r Cyngor	(8,302)	
(40,003)	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnod	(56,420)	
(2,756)	Cyfrif Refeniw Tai	(2,056)	
(8,290)	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	(6,957)	
(7,638)	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	(11,098)	
2,991	Cronfa Wrth Gefn elw a cholled	1,700	
(64,554)	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio		(83,133)
(108,234)	Y Gronfa Adbriso Wrth Gefn	(175,238)	
307,532	Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn	247,726	
(500)	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig		
(179,953)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(226,387)	
424	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol	409	
2,803	Cyfrif Absenoldebau Digolledol Cronedig Byrdymor	3,196	
22,072	Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio		(150,294)
(42,482)	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn		(233,427)

Datganiad Llif Arian y Grŵp

2020/21 £000		2021/22 £000
(18,016)	Net (Arian dros ben) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(35,936)
(19,174)	Addasiadau i Net (Arian dros ben) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad yw'n arian parod	2,166
2,084	Addasiadau i eitemau a gynhwysir yn y Net (Arian dros ben) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu	4,838
(35,106)	Llifoedd arian net gan Weithgareddau Gweithredol	(28,932)
2,448	Gweithgareddau Buddsoddi	33,066
32,267	Gweithgareddau Cyllido	(5,333)
(391)	(Cynnydd) neu leihad Net mewn Arian Parod neu Gywerthoedd Arian Parod	(1,199)
3,556	Arian parod neu Gywerthoedd Arian Parod ar ddechrau'r cyfnod	3,947
391	Cynnydd/(Leihad) mewn Arian Parod	1,199
3,947	Arian parod neu Gywerthoedd Arian Parod ar ddiwedd y cyfnod	5,146

Adran 6: Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Cyngor Sir Ddinbych; a
- Grŵp Cyngor Sir Ddinbych

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symudiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai, a Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth eu paratoi yn gymwys mewn cyfraith a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 a fabwysiadwyd gan y DU.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar [Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp] yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol. Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar y rheini. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon yn cael ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd yr Adroddiad Naratif yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Gyngor Sir Ddinbych a'r grŵp a'u hamgylcheddau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu

Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt, os bydd y canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn fanylach yn y Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 13, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Sir Ddinbych, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp sy'n ymwneud â:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;

- canfod ac ymateb i risgiau twyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu â pheidio cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio cyfnodolion anarferol, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tueddiadau a gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i drefn busnes arferol.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phroffion dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- ymdrin â'r risg o dwyll pan fo rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a waned wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i drefn busnes arferol.

Hefyd rwyf wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r holl dîm archwilio gan barhau i wyllo am unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ddinbych a'r grŵp yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru
21 Medi 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Cyngor yw uniondeb a chynhaliaeth gwefan Cyngor Sir Ddinbych; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn ymwneud ag ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw'r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.



Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021 - 2022

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Y Fframwaith Llywodraethu	6
Egwyddor A - Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith	6
Egwyddor B - Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr.....	6
Egwyddor C - Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.....	7
Egwyddor D - Penderfynu ar yr ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.....	8
Egwyddor E - Datblygu capasiti, gan gynnwys gallu'r arweinwyr ac unigolion o fewn y Cyngor.....	8
Egwyddor F - Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gref	9
Egwyddor G - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.....	10
Effaith Covid-19 ar Lywodraethu	10
Cyfranwyr allweddol at ddatblygu a chynnal y Fframwaith Llywodraethu	13
Adolygu Effeithiolrwydd.....	15
Ffynonellau Sicrwydd Mewnol.....	15
Sicrwydd gan Gyrrff Rheoleiddio Allanol:	22
Camau a Gymerwyd i Ymateb i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21.....	25

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Camau Gwella yn Deillio o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22.....	28
Ardystiad.....	30

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cyflwyniad

Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) sy'n gyfrifol am sicrhau y cyflawnir ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol. O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018) mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu pa mor effeithiol yw ei system ar gyfer rheolaeth fewnol a chynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adrodd ynghylch yr adolygiad hwnnw yn ei Ddatganiad Cyfrifon.

Lluniwyd y datganiad hwn yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru – 'Delivering Good Governance in Local Government Framework' (2016). Mae hyn er mwyn dangos bod y Cyngor:

- Yn cynnal ei fusnes yn unol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol;
- Yn rhoi cyfrif priodol am arian cyhoeddus a'i ddiogelu;
- Yn defnyddio'i adnoddau'n gynnil, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a gytunwyd er budd pobl leol.

Wrth sefydlu ei Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r 'Egwyddorion Craidd' sy'n sail ar gyfer fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru. Nodir y saith o egwyddorion craidd isod:

- A. Ymddwyn gydag uniondeb
- B. Ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid
- C. Diffinio canlyniadau
- D. Sicrhau y cyflawnir canlyniadau a gynlluniwyd
- E. Datblygu capasiti, gallu ac arweinyddiaeth
- F. Rheoli risgiau a pherfformiad yn effeithiol
- G. Arddangos tryloywder ac atebolrwydd

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r adolygiad ar sail y Fframwaith hwn yn adolygu a oes unrhyw gyfleoedd i wella trefniadau'r Cyngor. Os oes cyfleoedd, caiff cynllun gweithredu ei gynnwys er mwyn sicrhau y cymerir y camau angenrheidiol.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Y Fframwaith Llywodraethu

Egwyddor A - Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys Codau Ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion ac maent yn mynnu ymddygiad o safon uchel. Fe'i gwnaed yn ofynnol i swyddogion gwblhau hyfforddiant er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod am y codau ymarfer a pholisïau pwysig eraill. Ategir hynny gan ganllawiau mwy penodol megis y Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgwrwbrwyo, y Polisi Rhannu Pryderon, Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau. Mae gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (y Swyddog Monitro) a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo (y Swyddog Adran 151) ill dau gyfrifoldebau i sicrhau bod penderfyniadau'r Cyngor yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.

Egwyddor B - Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid a phartneriaid drwy drefniadau cydweithio, byrddau partneriaeth a chynrychiolaeth ar fyrddau llywodraethu cyrff allanol. Datblygwyd ein dulliau o ymgysylltu â budd-ddeiliaid mewn ymateb i Covid-19, er mwyn sicrhau y gellid cydlynu gwaith amryfal sefydliadau ac asiantaethau.

Fe gafodd yr arolwg preswylwyr ei ddisodli eleni gan yr Arolwg Budd-ddeiliaid er mwyn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a llywio Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn erbyn ei swyddogaethau. Fe gynhaliwyd y gwaith ymgysylltu yn ystod mis Medi a mis Hydref 2021, ac mae'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi yn yr Hunanasesiad.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth ar y wefan a chaiff pob cyfarfod o'r Cyngor ei weddarlledu bellach. Sefydlwyd cyfarfodydd ar-lein er mwyn cadw pellter cymdeithasol oherwydd Covid-19, a chynhelir holl gyfarfodydd y Cyngor yn rhithiol ar hyn o bryd.

Mae sianeli cyfathrebu'n cynnwys datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau ar-lein drwy gyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) a'r porth Sgwrs y Sir.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Cyngor wedi parhau i gadw mewn cysylltiad â phobl ar restrau gwarchod sy'n agored i Covid-19, gan ymateb i'r pandemig, ac mae aelodau'r gymuned wedi croesawu'r galwadau hyn.

Egwyddor C - Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Mae'r weledigaeth strategol ar gyfer Sir Ddinbych wedi'i nodi yn ei Gynllun Corfforaethol. Yma mae'r Cyngor yn diffinio blaenoriaethau a chanlyniadau penodol i'w cyflawni, ac mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol yn goruchwyllo'r drefn.

Yn ystod 2021 i 2022, mae'r rhan fwyaf o brosiectau'r Cynllun Corfforaethol wedi gallu adfer o oedi a achoswyd gan y pandemig. Gwnaeth Bwrdd y Cynllun Corfforaethol gau'r rhaglen yn ffurfiol ym mis Mawrth, gyda phrosiectau naill ai wedi'u darparu a'u cau eisoes; yn dod i ben yn fuan gyda'u cyllid; neu'n parhau fel busnes arferol mewn gwasanaethau. Mae bwrdd rhaglen ar wahân sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod cyllid a gwasanaethau'r Cyngor yn gynaliadwy.

Cwblheir Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer unrhyw benderfyniadau arwyddocaol, a diweddarwyd yr asesiad er mwyn ystyried yr effaith ar Newid Hinsawdd a'r ddyletswydd o ran cydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Mae modd gwneud mwy a mwy o drafodion ariannol ar-lein ac mae prosiect band eang cyflym iawn yn mynd rhagddo fel bod mwy o bobl a busnesau yn Sir Ddinbych yn medru cysylltu.

Mae Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn nodi sut fydd y Cyngor yn cyflawni ei uchelgais o fod yn awdurdod carbon sero net erbyn 2030. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod hyn wedi'i gynnwys trwy brosesau gwneud penderfyniadau a systemau'r Cyngor.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Egwyddor D - Penderfynu ar yr ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

Mae'r Uwch-reolwyr a'r Aelodau (drwy Bwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) yn sicrhau bod y Cyngor yn dal i ganolbwyntio ar gyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau. Mae Prif Weithredwr newydd wedi'i benodi ac mae'n edrych ar ailstrwythuro'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Tîm Arwain Strategol ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo strwythur newydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol a bydd tri Chyfarwyddwr Corfforaethol yn y Cyngor y flwyddyn nesaf, yn hytrach na dau.

Mae Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor ar gyfer 2021-22 yn cael ei ddrafftio, ac mae'n parhau i gynnwys asesiad yn erbyn ein swyddogaethau llywodraethu, yn unol ag argymhellion canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a ddaeth i rym ym mis Mai 2022. Mae'r Adroddiadau Perfformiad Chwarterol sy'n ffurfio'r Hunanasesiad hefyd wedi parhau i gofnodi gweithgareddau ein prif gyfarfodydd (Cyngor, Cabinet, Craffu a Llywodraethu ac Archwilio), eitemau allweddol o newyddion, ac adroddiadau gan ein rheoleiddwyr archwilio mewnol ac allanol.

Egwyddor E - Datblygu capasiti, gan gynnwys gallu'r arweinwyr ac unigolion o fewn y Cyngor

Caiff datblygiad ei lywio gan y strategaeth arweinyddiaeth, cynlluniau prentisiaeth a phorth e-ddysgu a ddefnyddir i ddatblygu staff ar bob lefel.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio drwy amrywiaeth helaeth o bartneriaethau a threfniadau cydweithio, ac mae'n defnyddio prosesau comisiynu a chaffael i wneud y defnydd gorau o'r capasiti drwy ddarparu gwasanaethau yn y ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon. Cymeradwywyd pecyn cymorth partneriaethau (Modelau Darparu Gwasanaethau Amgen) sy'n nodi'r gofynion allweddol ac yn cynnig dulliau o sicrhau y rheolir partneriaethau'n effeithiol.

Mae'r ffyrdd newydd o weithio ar gyfer staff ac aelodau wedi'i gynnwys dros y 12 mis diwethaf a chaiff gweithio gartref ei weld fel rhywbeth arferol bellach, gyda chefnogaeth TGCh ar waith.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Egwyddor F - Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gref

Caiff cofrestri risg corfforaethol eu diweddarau ddwywaith y flwyddyn a thynnir sylw uwch-reolwyr ac aelodau i unrhyw risgiau arwyddocaol. Lluniwyd datganiad o Barodrwydd i Dderbyn Risg ac mae aelodau ac uwch-reolwyr yn ei adolygu er mwyn sicrhau bod lefel unrhyw risg yn dderbyniol, a diweddarwyd y datganiad yn ddiweddar er mwyn pennu'r parodrwydd i dderbyn risgiau ym maes diogelu a'r amgylchedd. Mae Archwilio Mewnol yn asesu ansawdd cyffredinol y trefniadau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol, ac yn cytuno ar gamau gwella fel y bo'r angen.

Mae gan y Cyngor hanes o reolaeth ariannol gadarn, darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb a chyhoeddi cyfrifon yn brydlon mewn ymateb i'r gofynion ynglŷn â chau'r cyfrifon yn gynnar. Er gwaethaf cyfyngiadau cyfyngedig a achoswyd gan y pandemig, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gau ei gyfrifon ar gyfer 2020/21 gan gadw i'r dyddiad cau gwreiddiol.

Mae ymateb i Covid-19 wedi golygu cynyddu gwariant (ar gyfarpar diogelu personol, er enghraifft) a cholli incwm (hamdden, parcio ac yn y blaen) ac mae hynny wedi creu cryn wasgfa ar gyllid y Cyngor, ac mae'n rhaid gweinyddu grantiau Llywodraeth Cymru'n chwim yng nghyd-destun ardrethi busnes, taliadau bonws gofal cymdeithasol a phrydau ysgol am ddim. Mae cymorth gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r Cyngor i gynnal ei wasanaethau hanfodol a chefnogi cymunedau a busnesau'r sir wrth wneud hynny. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad yn ôl y Cod Rheolaeth Ariannol er mwyn cyflawni gofynion newydd.

Bernid fod llywodraethu gwybodaeth yn gadarn ar y cyfan, ond roedd y pandemig wedi amlygu gwendidau a ddeilliai'n rhannol o wahanol arferion gwaith (er enghraifft, y rhan helaeth o'r staff yn gweithio gartref) na fu'n destun pryder yn y gorffennol; darparwyd hyfforddiant e-ddysgu diwygiedig mewn Diogelu Data er mwyn codi ymwybyddiaeth staff.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Egwyddor G - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol

Mae'r asesiad allanol o Archwilio Mewnol yn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae cyrff rheoleiddio allanol yn darparu asesiadau annibynnol, gan gynnwys: Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn ac Ombwdsmon Cymru; bu canlyniadau'r asesiadau hynny'n gadarnhaol ar y cyfan, ac ni chodwyd unrhyw bryderon o bwys.

Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth glir a chywir, ac mae wedi datblygu ei wefan a fformat adroddiadau'r Cyngor er mwyn gwella tryloywder a hygyrchedd. Diweddarwyd y wefan i gyflawni'r Safonau Hygyrchedd. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd a phenderfyniadau allweddol ar wefan y Cyngor.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar-lein ac maent ar gael i'r cyhoedd bellach, sy'n unol â gofynion deddfwriaethol.

Effaith Covid-19 ar Lywodraethu

Mae pandemig Covid-19 wedi parhau i gael effaith ar y Cyngor a thrigolion y sir, a bu'n ofynnol inni addasu'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau yn ogystal â chreu gwasanaethau newydd. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan bwysig yn yr ymateb i'r pandemig o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl. O ganlyniad i hynny bu'n rhaid newid rhai trefniadau llywodraethu, gan gynnwys symud cyfarfodydd y Cyngor i fod ar-lein, a rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau er mwyn ymdopi â'r newid yn y galw. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gymryd camau angenrheidiol wrth reoli ac oedi lledaeniad y feirws. Sefydlodd y Cyngor y Tîm Rheoli Strategol mewn Argyfwng i ddod ag uwch-reolwyr, Adnoddau Dynol, TGCh ac Aelodau Arweiniol ynghyd i fonitro'r sefyllfa ac ymateb i'r argyfwng.

Fel y soniwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y llynedd:

“Mae gofynion cadw pellter cymdeithasol yn golygu bod holl gyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal ar-lein bellach gan gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol a Rheoliadau

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 dan bwerau a roddwyd i Lywodraeth Cymru dan Ddeddf Coronafeirws 2020.

Fel y nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y llynedd, cyflwynwyd trefniadau newydd i ddechrau fel y cytunwyd rhwng y Cabinet ac Arweinwyr Grwpiau er mwyn sicrhau y gellid ymgysylltu'n rhagweithiol â'r aelodau etholedig i gyd. Bu Arweinwyr Grwpiau'n cwrdd o bell gyda'r Prif Weithredwr, Arweinydd, Swyddog Monitro a Swyddog a151 yn rheolaidd i gael briff ar ddull rheoli'r argyfwng a chynigion ar gyfer adferiad. Yna gallai'r Arweinwyr rannu'r wybodaeth â'u grwpiau a gofyn i Aelodau Arweiniol a Swyddogion Arweiniol ddod i gyfarfodydd Arweinwyr Grwpiau neu gyfarfodydd Grŵp os oedd angen mwy o wybodaeth neu drafodaeth. Roedd trefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer galw penderfyniadau i mewn, pe byddai'r nifer ofynnol o aelodau'n dymuno herio penderfyniad.

Mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd o bell a gellir eu gweddarlledu er mwyn caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad atynt a chynyddu tryloywder a bod yn agored.

Mae ymateb y Cyngor hefyd wedi cynnwys:

- Gweithredu ei brosesau rheoli argyfwng, ar ôl eu haddasu rywfaint, a chael cynrychiolaeth yn y seilwaith rhanbarthol ar gyfer ymateb i'r argyfwng.
- Gweithredu prosesau parhad busnes drwy nodi gwasanaethau allweddol a symud staff o wasanaethau nad oeddent yn hanfodol i gynorthwyo lle'r oedd prinder capasiti.
- Mae gwasanaethau craidd wedi parhau i gael eu darparu trwy gydol y pandemig.
- Wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi, gwnaeth y Cyngor weithredu rheolau newydd i ganiatáu i weithwyr allweddol weithio o swyddfa'r Cyngor. Hefyd, mae'r Cyngor wedi cadw trefniadau gwarchod ar gyfer gweithwyr y nodwyd eu bod â risg uchel.
- Rhoi trefniadau cyfathrebu ar waith i hwyluso rhannu cyngor a gwybodaeth ynghylch iechyd y cyhoedd a gwasanaethau'r Cyngor a sicrhau ei fod yn cyrraedd y cynulleidfaoedd perthnasol, er enghraifft, trigolion a busnesau.
- Strategaeth ar gyfer Adferiad Ariannol Covid-19 yn cyflwyno ymateb y Cyngor i'r gwasgfeydd ariannol sylweddol y mae Covid-19 wedi'u hachosi.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

- Gweithredu prosesau'n chwim wrth weinyddu grantiau Llywodraeth Cymru i fusnesau bach a'r sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden. Hefyd, taliadau bonws gofal cymdeithasol a thaliadau prydau ysgol am ddim.
- Cyfathrebu â staff a'u cefnogi drwy rannu negeseuon i sicrhau eu bod yn mynd ati i ystyried a rheoli eu hiechyd a'u lles.

Byddwn yn dal i adolygu'r effaith y mae Covid-19 wedi'i gael ar ein cymunedau a busnesau wrth i'r economi ailgychwyn wedi diddymu'r cyfyngiadau. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau ei fod yn ymateb yn briodol i'r cyfleoedd, heriau a phroblemau sy'n deillio o Covid-19.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cyfranwyr allweddol at ddatblygu a chynnal y Fframwaith Llywodraethu

Cyfranwyr Allweddol	Cyfraniad
Y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol • Ardystio'r Cyfansoddiad • Cymeradwyo'r fframwaith polisi ac ariannol
Cabinet	<ul style="list-style-type: none"> • Prif gorff penderfynu'r Cyngor • Yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac aelodau Cabinet sydd â chyfrifoldeb am bortffolios penodol
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	<ul style="list-style-type: none"> • Helpu codi proffil rheolaeth fewnol, rheoli risg a materion adrodd ariannol o fewn y Cyngor, yn ogystal â chynnig fforwm ar gyfer trafod materion a godwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol
Pwyllgor Safonau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Pwyllgor Safonau'n hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan aelodau etholedig a chyfetholedig, ac yn monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau
Byrddau Rhaglen a Phrosiect	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro arbedion effeithlonrwydd, amlygu risg a chamau lliniaru • Ystyried cadernid cynllunio rhag argyfwng a rhagweld ac ystyried darparu adnoddau ar gyfer darpariaeth a gynlluniwyd • Cynllunio gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu
Pwyllgorau Craffu	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau • Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad cyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys partneriaethau
Y Pwyllgorau Trwyddedu a Chynllunio	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Pwyllgor Trwyddedu'n ystyried materion sydd a wnelont â thacsis, adloniant, alcohol, mannau gwerthu bwyd ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o swyddogaethau trwyddedu eraill • Mae'r Pwyllgor Cynllunio'n penderfynu ynghylch materion rheoli datblygu, gan gynnwys ceisiadau am ganiatâd cynllunio
Y Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Tîm Arwain	<ul style="list-style-type: none"> • Bod yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor, ei gynnal a'i weithredu

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cyfranwyr Allweddol	Cyfraniad
Strategol a Rheolwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol a llywodraethiant effeithiol y Cyngor
Archwilio Mewnol	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig barn annibynnol a gwrthrychol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu • Cynnal rhaglen o archwiliadau ar sail risg, gan gynnwys gweithgarwch gwrth-dwyll ac ymchwiliadau • Adnabod meysydd i'w gwella wrth reoli risg
Archwilio Allanol	Archwilio datganiadau ariannol y Cyngor ac adrodd yn eu cylch (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol), gan roi barn ar y cyfrifon a'r defnydd o adnoddau a dod i gasgliad ynglŷn â'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau y defnyddir adnoddau'n gynnil, effeithlon ac effeithiol

[Capsiwn: Cyfranwyr allweddol at ddatblygu a chynnal y Fframwaith Llywodraethu]

Mae'r Fframwaith Llywodraethu uchod wedi dychwelyd at drefniadau cyn y pandemig bellach, ac eithrio cyfarfodydd a gynhelir wyneb i wyneb. Caiff cyfarfodydd eu cynnal ar-lein a'u gweddarlledu bellach, er mwyn caniatáu i'r cyhoedd fynychu. Mae Aelodau a Swyddogion wedi addasu i'r ffordd newydd o weithio ac mae'n sicrhau tryloywder a bod yn agored.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Adolygu Effeithiolrwydd

Defnyddir sawl dull o fesur mor effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu ac yn 2020/21, y tro cyntaf i'r Cyngor baratoi cyfrifon grŵp, mae'r Cyngor wedi ystyried ei berthynas â'i endidau grŵp – hynny yw, Hamdden Sir Ddinbych Cyf – wrth gynnal ei adolygiad.

Ym mis Mawrth ac Ebrill 2021 adolygodd y Grŵp Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol drefniadau'r Cyngor yn ôl Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru, a chadarnhawyd bod trefniadau Llywodraethu fel y Cod Ymddygiad, Rheoliadau Ariannol a phrosesau corfforaethol eraill wedi gweithio yn y modd a fwriadwyd i raddau helaeth yn ystod y flwyddyn; amlygwyd rhai meysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth yn sgil adolygiadau Archwilio Mewnol. Caiff y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r trefniadau presennol a bydd hynny'n parhau mewn ymateb i ddatblygiadau ac unrhyw oblygiadau pellach sy'n deillio o bandemig Covid-19.

Ffynonellau Sicrwydd Mewnol

[Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020-21](#) yw'r adroddiad cyntaf i gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag ymateb y Cyngor i'r ddyletswydd newydd hon i hunanasesu ei berfformiad, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n rhoi crynodeb o'r perfformiad mewn saith o feysydd llywodraethu: Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Rheoli Perfformiad, Rheoli Risg, Cynllunio'r Gweithlu, Asedau a Chaffael. Bydd ein hadroddiad Hunanasesu ar gyfer 2021 i 2022 yn mynd trwy bwyllgorau ym mis Mehefin, cyn cael cymeradwyaeth derfynol gan y Cyngor ym mis Gorffennaf.

Barn Flynyddol Archwilio Mewnol

Un o'r datganiadau sicrwydd pwysicaf wrth adolygu effeithiolrwydd yw adroddiad a barn flynyddol y Prif Archwilydd Mewnol. Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu cynllun archwilio hyblyg sy'n ei alluogi i droi ei sylw at wahanol bethau wrth i flaenoriaethau newid yn ystod y flwyddyn. Yn 2021/22 bu'r gwaith Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar feysydd y tybiwyd fod yno fwy o risg ynddynt oherwydd y pandemig a'r newidiadau mewn prosesau rheoli yn ei sgil. Barn y Prif Archwilydd Mewnol yw fod trefniadau'r Cyngor o ran llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y meysydd a archwiliwyd yn parhau i weithredu'n foddhaol. Er

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

bod y pandemig wedi cyfyngu ar gwmpas y gwaith sicrwydd oherwydd gorfod symud staff archwilio, gellir bod yn rhesymol sicr na ddaeth unrhyw wendidau mawr i'r amlwg yn y systemau rheoli mewnol y mae'r Cyngor yn eu gweithredu. Argymhellwyd gwella'r meysydd canlynol:

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Adroddiadau Sicrwydd Isel a gyflwynodd Archwilio Mewnol yn 2021/22	Camau gweithredu a gytunwyd sy'n ymwneud â risgiau/materion sylweddol
Eithriadau, Esemptiadau ac Amrywiadau o Reolau'r Weithdrefn Gontractau (CPR)	<p>Caiff cyflwyniad (ymwybyddiaeth i reolwyr newydd a sesiwn gloywi) ei roi gan bob Partner Busnes Caffael mewn amryw Grwpiau Rheoli Adrannol (neu gyfwerth); a chyfarfodydd Gwasanaeth cyfan lle bo'n briodol.</p> <p>Partneriaid Busnes Caffael i gefnogi Gwasanaethau o ran gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CPR ac amlygu meysydd diffyg cydymffurfio neu arfer gwael mewn cyfarfodydd rheoli gwasanaeth.</p> <p>Canllaw Cyflym (cynhyrchwyd eisoes) i gael ei ddefnyddio fel man cychwyn mewn unrhyw gyflwyniad.</p> <p>Diwygio'r Canllaw Cyflym os oes angen er mwyn rhoi rhagor o eglurder ar ddilyniant sylwadau cyfreithiol/caffael cyn Llofnodwyr Awdurdodedig.</p> <p>Defnyddio LINC a dulliau eraill i amlygu arfer da.</p> <p>Ffurflen Amrywiadau – i gael ei diwygio i gynnwys adran sy'n gofyn a geisiwyd amrywiadau blaenorol ac atodi copïau o amrywiadau o'r fath wedi'u llofnodi; eu diwygio i adlewyrchu dilyniant sylwadau cyfreithiol/caffael.</p>

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

<p>Dilyn trywydd Rheoli Contractau</p>	<p>Adrodd i'r Tîm Arwain Strategol o ran y gwendid a nodwyd o ran rheoli contractau a diffyg cydymffurfio â CPR, gyda bwriad i'r Tîm Arwain Strategol adolygu trefniadau yn eu gwasanaethau eu hunain i sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Bod pob contract yn cael ei gofnodi ar fodiwl rheoli contractau Proactis neu systemau addas eraill (nes gwneir penderfyniad i'w ddisodli); <input type="checkbox"/> Bod contractau wedi'u llofnodi wedi'u caffael ar gyfer pob contract dros £25,000 a'u bod yn cael eu cadw ar system Proactis (neu system rheoli contractau cymeradwy addas); <input type="checkbox"/> Bod gweithgarwch rheoli contractau yn cael ei gofnodi yn y modiwl rheoli contractau yn Proactis, neu ddull arall fel a gytunwyd yn gorfforaethol; <input type="checkbox"/> Sicrhau bod darpariaeth buddion cymunedol yn cael ei monitro; <input type="checkbox"/> Sicrhau bod dangosyddion perfformiad priodol yn cael eu cynnwys o fewn contractau gyda monitro addas o berfformiad y contractwr; <p>Sicrhau bod staff sy'n ymwneud â rheoli contractau wedi cael hyfforddiant addas. Caiff hyfforddiant ei gyflwyno ar draws y Cyngor i'r holl staff sy'n ymwneud â rheoli contractau a chaiff ei ddarparu mewn dwy ran:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1.Modiwl Rheoli Contractau Proactis 2.Egwyddorion rheoli contractau (er mwyn archwilio defnyddio e-ddysgu). <p>Caiff fframwaith Rheoli Contractau ei gynhyrchu i gofnodi camau rheoli contract a bydd hyn yn cynnwys rhestr o dasgau â'r gweithgareddau gofynnol a argymhellir eu cyflawni. Mae cwmpas i ddatblygu templedi safonol yn ddiweddarach.</p> <p>Fforwm Rheolwyr Contractau i gael ei sefydlu i rannu arfer gorau.</p> <p>Pan fydd y fframwaith wedi'i ddisbarthu a'r e-ddysgu a hyfforddiant wedi'u darparu, caiff nodiadau canllaw eu datblygu i roi gwybodaeth ychwanegol i staff am reoli contractau.</p> <p>Bydd partneriaid busnes caffael yn rhedeg adroddiad Proactis sy'n dangos rhestr o gontractau yn ôl maes gwasanaeth a'i rannu gyda thimau rheoli</p>
--	--

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

	<p>gwasanaeth er mwyn i'r Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod contractau'n cael eu llwytho'n briodol. Mae cwmpas i gynnwys sgôr categoreiddio risg y contract yn ddiweddarach pan fydd y fframwaith rheoli contractau wedi'i lansio.</p> <p>Caiff adolygiad o'r system rheoli contractau presennol (Proactis) ei gynnal er mwyn canfod yw'r system yn dal yn addas i'r diben. Os bernir nad yw'r system bresennol yn addas i'r diben, caiff achos busnes ei lunio er mwyn cyfiawnhau disodli'r system honno.</p> <p>Adolygu'r ffurflen gomisiynu i gynnwys adran ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i atgoffa bod angen eu cynnwys mewn contractau perthnasol, e.e. contractau risg uchel a chanolig / strategol.</p> <p>Mae potensial i Proactis anfon nodiadau atgoffa os nad yw'r monitro wedi'i gwblhau/lwytho trwy greu tasgau. Caiff hyn ei gynnwys fel rhan o hyfforddiant rheoli contractau Proactis (gweler gam gweithredu 2.1).</p> <p>Mae adolygiad o'r system rheoli contractau yn cadarnhau bod swyddogaeth ganddi i gofnodi risgiau contractau. Caiff maes gorfodol ei roi ar Proactis i gofnodi'r wybodaeth hon a galluogi adrodd.</p> <p>Mae angen cofnodi pob risg sy'n gysylltiedig â gweithredu contract ar ffurflen risgiau cyn y contract.</p> <p>Caiff fframwaith Rheoli Contractau ei gyflwyno i'r Tîm Arwain Strategol i'w gymeradwyo, gyda'r bwriad o'i fabwysiadu ar gyfer pob contract nerwydd a'i ddefnyddio gan bob gwasanaeth.</p> <p>Caiff sgoriau risg contractau eu nodi mewn adroddiadau Proactis a gaiff eu cynhyrchu i dimau rheoli gwasanaeth eu hadolygu ac i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod y fframwaith yn cael ei ddefnyddio'n briodol.</p> <p>Gweler hefyd gam gweithredu 1.1, Penaethiaid Gwasanaeth i sicrhau bod unrhyw gontractau y bernir eu bod yn risg sylweddol i'r gwasanaeth neu'r cyngor yn cael eu cofnodi ar gofrestr risg y gwasanaeth lle bo'n briodol.</p> <p>Bydd Hwb Buddion Cymunedol yn monitro pob budd cymunedol yn ganolog i gydlynu a sicrhau eu bod yn</p>
--	--

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

	cael eu darparu. Mae'n cysylltu ag adolygiad Archwilio Mewnol o gytundebau Adran 106.
--	---

[Capsiwn: Materion a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn 2021/22 a'r camau a gytunwyd i liniaru arnynt.]

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Datganiad y Prif Swyddog Cyllid ynghylch Cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol

Lluniwyd Cod Rheolaeth Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth gyda'r nod o hybu arferion da mewn rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i arddangos eu cynaladwyedd ariannol. Mae'r Cod felly'n gosod y safonau i awdurdodau ar gyfer rheolaeth ariannol.

Seiliwyd y Cod ar gyfres o egwyddorion wedi'u hategu gan safonau penodol a datganiadau ymarfer y credir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer:

- cadw rheolaeth ariannol ar gyllid awdurdod lleol yn y tymor byr, tymor canolig a'r tymor hir;
- cadw rheolaeth ar gadernid ariannol er mwyn bodloni galw a ragwelwyd ar wasanaethau; a
- cadw rheolaeth ariannol ar unrhyw ddatblygiadau syfrdanol ac annisgwyl yn eu sefyllfaoedd ariannol.

Rhaid i bob awdurdod lleol ddangos ei fod yn bodloni gofynion y Cod.

Fel Swyddog Adran 151 mae arnaf Gyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol ac Aelodau Etholedig) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol. Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth Sir Ddinbych â'r Cod fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gallaf gadarnhau bod Sir Ddinbych yn cydymffurfio â'r Cod yn y rhan helaeth o feysydd yn fy marn i. Nodwyd meysydd i'w gwella, fodd bynnag, ac mae llawer o'r gwelliannau eisoes yn mynd rhagddynt gan gynnwys:

- Adolygu'r Broses Gyfalaf yn llwyr a'i dogfennu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl y Grŵp Buddsoddi Strategol, a phrosesau pendant ar gyfer penderfynu, cyfrifyddu a rheoli prosiectau.
- Datblygu strategaeth gyfalaf hirdymor eglur.
- Monitro effaith barhaus Covid ar wasanaethau.
- Datblygu Proses y Gyllideb ymhellach er mwyn cynnwys gwneud penderfyniadau ac ymgynghori hirdymor fel egwyddorion craidd.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

- Byddwn yn dal i lobïo Llywodraeth Cymru am ffigurau dangosol o'r setliad sy'n cynnwys sawl blwyddyn ar y tro.
- Cwblhau'r adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Cynnwys swm y Cronfeydd wrth Gefn Heb eu Clustnodi yn y Dangosfwrdd Corfforaethol i ategu'r rhagolygon blynyddol o ganlyniad y gyllideb.

Dangosyddion allweddol

Gellir mesur digonolrwydd trefniadau llywodraethu gan ddefnyddio nifer o ddangosyddion canlyniadau allweddol hefyd:

Dangosydd perfformiad allweddol	Canlyniadau 2021/22
Adroddiadau statudol a gyflwynwyd gan y Swyddog Monitro (Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989)	Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiad
Twyll wedi'i brofi gan gynghorwyr neu aelodau o staff	Dim yn 2021/22
Atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon yn 2021/22	Ni chadarnhawyd unrhyw gŵyn
Adroddiadau archwilio mewnol	2 o adolygiadau sicrwydd isel
Cwynion ynglŷn ag aelodau etholedig	2 yn 2021/22
Nifer yr adroddiadau negyddol gan Gyrrff Rheoleiddio Allanol	Dim yn 2021/22

Sicrwydd gan Gyrrff Rheoleiddio Allanol:

Archwilio Cymru

Mae archwilydd allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, yn rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb y Datganiad Cyfrifon ddiwedd pob blwyddyn a digonolrwydd cyffredinol y trefniadau ar gyfer sicrhau a chynyddu gwerth am arian. Rhoes yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamwys, wir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 29 Tachwedd 2021.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn Adroddiad Cryno Archwiliad Blynyddol 2021 cyflwynwyd crynodeb o'u gwaith archwilio a oedd yn cynnwys:

- Gwelliant Parhaus – Fe gadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau sy'n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel a gafodd ei nodi gan orchymyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Cynaliadwyedd Ariannol – Yng Nghyngor Sir Ddinbych, daethom i'r casgliad fod y Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig – mae ganddo hanes blaenorol da o reoli ei gyllideb ac mae'n parhau i weithio i wella ei sefyllfa ariannol ymhellach.
- Cynllun Adfer – Gwnaeth adferiad Cyngor Sir Ddinbych o effaith y pandemig elwa o ymgysylltiad rhagweithiol ar lefel ranbarthol a lleol, a dangosodd prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r Cyngor arweinyddiaeth gyfun gref a chyson. Gwnaeth dull y Cyngor o adfer elwa o berthnasoedd cadarnhaol rhwng swyddogion/aelodau gan fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig. Roedd rhai camau gweithredu a gymerwyd yn ystod yr ymateb i'r argyfwng, fel cynnal ffocws ar ei uchelgeisiau o ran newid hinsawdd a threfniadau adrodd ariannol wedi'u hen sefydlu, yn arbennig o bositif.
- Gwireddu Uchelgeisiau Amgylcheddol – Daethom i'r casgliad yn ein hadroddiad fod y Cyngor yn gwneud cynnydd ardderchog wrth gynnwys ei uchelgeisiau amgylcheddol. Gwnaethom nodi bod y Cyngor wedi symud yn gyflym i gynnwys ei uchelgeisiau amgylcheddol yn ei fframweithiau cynllunio strategol, mae'n cyfathrebu ei uchelgeisiau'n dda ac mae wedi rhoi mesurau gwaelodol ar waith gan ddefnyddio fframwaith perfformiad sefydledig. Nid yw cost lawn yr uchelgais yn hysbys eto, byddai mapio budd-ddeiliaid mwy cynhwysfawr yn cryfhau ymgysylltiad ymhellach, a bydd adrodd dros y flwyddyn nesaf yn helpu i gynnwys yr uchelgeisiau amgylcheddol a datblygu'r mesurau.
- Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn – Wrth gwblhau'r gwaith hwn, gwnaethom gydnabod bod cyfrifoldeb dros yr heriau presennol yn y trefniadau comisiynu yn eang. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith cenedlaethol sy'n gymhleth, ac mae gan bartneriaid lleol gyfrifoldeb dros y ffordd y caiff polisi a chanllawiau cenedlaethol eu gweithredu. Felly, rydym wedi adrodd yn lleol wrth

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

gyngorau a'r Bwrdd Iechyd, ac yn genedlaethol wrth Lywodraeth Cymru, gan argymhell camau gweithredu y dylai'r cyrff hyn eu cymryd.

Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae'r Cyngor yn destun Arolygiadau Allanol Statudol gan amryw gyrrff gan gynnwys ESTYN ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Dyma grynodedb o'r gwaith a wnaed yn ddiweddar:

- Gwnaeth AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gyhoeddi eu hadolygiad Cenedlaethol ar y cyd o'r defnydd o Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru.
- Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd AGC ei adroddiad trosolwg cenedlaethol o wiriadau sicrwydd yng Nghymru hefyd, a 'Gadewch i mi ffynnu', adolygiad cenedlaethol o gymorth cynnar, gofal a chefnogaeth a'r trefniadau trosglwyddo i blant anabl yng Nghymru.
- Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd AGC ei lythyr Gwiriad Sicrwydd i'r Cyngor, sy'n crynhoi canfyddiadau gwiriad sicrwydd AGC a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Camau a Gymerwyd i Ymateb i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21

Yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y llynedd amlygwyd saith o feysydd ar gyfer gwella. Yn y tabl isod nodir y camau gweithredu a gymerwyd wrth fynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod 2021/22:

Meysydd i'w gwella yn 2020/21	Cynnydd hyd yma
<p>Adolygu a diwygio cod ymddygiad y Swyddogion, y weithdrefn ar gyfer cofnodi datganiadau o gysylltiad, rhoddion a lletygarwch, a'r dull o ymateb i gofnodion felly.</p>	<p>Mae hyn yn dal i fynd rhagddo oherwydd bod y gwasanaeth wedi mynd trwy nifer o newidiadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi'i chael yn anodd recriwtio staff.</p> <p>Cytunwyd yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth ym mis Mawrth 2022 y byddai hyn yn cario drosodd i 2022/23.</p>
<p>Gwasgfeydd parhaus ar y gyllideb ac ansicrwydd ynglŷn â chyllid. Hefyd, ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o adolygu'r Cod Rheolaeth Ariannol.</p>	<p>Darparodd Llywodraeth Cymru ffigurau dangosol o'r setliad sy'n cynnwys sawl blwyddyn ar y tro yn 2021/22 ar gyfer 2023/24 a 2024/25, a byddwn yn llobio i'r arfer hwn barhau.</p> <p>Gwnaethom adolygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a byddwn yn parhau i'w adolygu bob blwyddyn.</p> <p>Mae gwaith yn y meysydd canlynol yn parhau a bydd yn cael ei gario drosodd i 2022/23:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r Broses Gyfalaf yn llwyr a'i dogfenu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl y Grŵp Buddsoddi Strategol, a phrosesau pendant ar gyfer penderfynu, cyfrifyddu a rheoli prosiectau. • Datblygu strategaeth gyfalaf hirdymor eglur. • Monitro effaith barhaus Covid ar wasanaethau. • Datblygu Proses y Gyllideb ymhellach er mwyn cynnwys gwneud penderfyniadau ac ymgynghori hirdymor fel egwyddorion craidd. <p>Cynnwys swm y Cronfeydd wrth Gefn Heb eu Clustnodi yn y Dangosfwrdd Corfforaethol i ategu'r rhagolygon blynyddol o ganlyniad y gyllideb.</p>

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Meysydd i'w gwella yn 2020/21	Cynnydd hyd yma
<p>Mynd i'r afael â gwendidau mewn rheoli contractau a amlygwyd drwy Archwilio Mewnol.</p>	<p>Cwblhaodd Archwilio Mewnol adolygiad dilynol a'r canlyniad oedd fod gwelliannau wedi'u gwneud ac mae'r sicrwydd isel wedi'i newid i sgôr sicrwydd canolog. Mae'r adolygiad dilynol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2022.</p>
<p>Cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.</p>	<p>Mae Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi cwblhau'r dasg hon.</p>
<p>Gallu'r gweithlu i gyflawni a'i gydnerthedd, a dibyniaeth ar ddeiliaid swyddi allweddol.</p>	<p>Mae Prif Weithredwr newydd wedi'i benodi ac ar 14 Mawrth 2022, cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i'r Cyngor Llawn er mwyn rhoi ystyriaeth i gyfeiriad strategol y Cyngor, gan gynnwys cynnig i ailstrwythuro Tîm Arwain Strategol y Cyngor.</p> <p>Fe gymeradwydd y Cyngor yr adroddiad ac wrth symud ymlaen, bydd gan y Cyngor dri Chyfarwyddwr Corfforaethol, mae un yn ei swydd eisoes a chaiff y ddau arall eu penodi yn 2022/23.</p> <p>Mae swydd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant wedi'i rhannu'n Bennaeth Gwasanaethau Addysg a Phennaeth Gwasanaethau Plant, ac mae'r ddwy swydd wedi'u llenwi.</p> <p>Mae proses adolygu a diweddarau cynllun y gweithlu yn dal i fynd rhagddo oherwydd bod y gwasanaeth wedi recriwtio sawl tro, gan gynnwys llenwi swydd Rheolwr AD yn dilyn secondiad. Mae'r broses hon wedi bod yn anoddach oherwydd bod y tîm wedi'i chael yn anodd recriwtio staff i'r swyddi gwag.</p> <p>Nid yw Archwilio Mewnol wedi cynnal yr adolygiad o broses cynllunio'r gweithlu, ond mae wedi cytuno â Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ym mis Mawrth 2022, y bydd yn oedi'r adolygiad tan ddiwedd chwarter 2, fel bod gan y gwasanaeth ddigon o amser i gynnal yr adolygiad.</p> <p>Gan fod y Cyngor yn symud allan o'r Pandemig bellach a bod staff yn dychwelyd i'r swyddfa'n</p>

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Meysydd i'w gwella yn 2020/21	Cynnydd hyd yma
	raddol, mae'r pwyslais nawr ar ddatblygu Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio.
Adolygu'r Polisi Rhannu Pryderon.	Nid yw'r adolygiad hwn wedi'i gwblhau a chytunwyd y bydd yn cario drosodd i'r flwyddyn ddilynol.
Ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllido yn y dyfodol ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.	<p>Mae adnoddau a phrosesau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cynyddu'r cyfleoedd o ran Mentrau Ariannu newydd y DU gan gynnwys Cronfa Codi'r Gwastad y DU, Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU sydd ar droed. Hefyd, sicrhau cydlyniant â ffrydiau ariannu eraill, er enghraifft, Cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.</p> <p>Sefydlwyd tîm matrices a bydd gwaith yn parhau i gynyddu cyfleoedd o'r mentrau newydd hyn.</p>

[Capsiwn: Meysydd i'w gwella yn 2020/21 a'r cynnydd hyd yma]

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Camau Gwella yn Deillio o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r meysydd canlynol i'w gwella wedi'u nodi i gael sylw yn ystod 2022/23. Mae hyn yn ystyried effaith barhaus pandemig y coronafeirws ar lywodraethu.

Meysydd i'w gwella yn 2022/23	Camau gweithredu y cytunwyd arnynt
<p>Adolygu a diwygio cod ymddygiad y Swyddogion, y weithdrefn ar gyfer cofnodi datganiadau o gysylltiad, rhoddion a lletygarwch, a'r dull o ymateb i gofnodion felly.</p>	<p>Adolygu a diwygio cod ymddygiad y Swyddogion, y weithdrefn ar gyfer cofnodi datganiadau o gysylltiad, rhoddion a lletygarwch, a'r dull o ymateb i gofnodion felly.</p> <p>System ddiwygiedig ar gyfer cofnodi datganiadau o gysylltiad, rhoddion a lletygarwch gan swyddogion.</p> <p>Rheolwr Strategol Adnoddau Dynol erbyn 31/03/2023.</p>
<p>Gallu'r gweithlu i gyflawni a'i gydnerthedd, a dibyniaeth ar ddeiliaid swyddi allweddol.</p>	<p>Recriwtio i swyddi gwag yn yr Uwch Dîm Rheoli, h.y. Dau Gyfarwyddwr Corfforaethol.</p> <p>Y Tîm Gweithredol Corfforaethol / Rheolwr Strategol Adnoddau Dynol, yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Cymunedau erbyn 31/07/2022.</p> <p>Adolygu a diwygio cynllun y gweithlu a chydlynu asesiad â'r gwasanaethau.</p> <p>Rheolwr Strategol Adnoddau Dynol erbyn 30/09/2022.</p> <p>Adolygiad Archwilio Mewnol o'r broses cynllunio'r gweithlu.</p> <p>Prif Archwilydd Mewnol erbyn 31/10/2022.</p> <p>Mae'r prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio'n cynnwys ffrwd waith sy'n datblygu polisiau Adnoddau Dynol newydd i gefnogi patrymau gwaith yn y dyfodol.</p> <p>Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd erbyn 30/09/2022.</p>

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Meysydd i'w gwella yn 2022/23	Camau gweithredu y cytunwyd arnynt
Adolygu'r Polisi Rhannu Pryderon	Diwygio'r polisi ar sail gwersi a ddysgwyd yn sgil pryderon a godwyd yn ddiweddar. Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd erbyn 31/03/2023.
Mynd i'r afael ag eithriadau, esemptiadau ac amrywiadau o Reolau'r Weithdrefn Contractau (CPR).	Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu cynnydd yn chwarter 2, pan gaiff yr adolygiad dilynol cyntaf ei gwblhau, a chaiff canfyddiadau eu hadrodd yn ôl wrth gyfarfod nesaf y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
Gwasgfeydd parhaus ar y gyllideb ac ansicrwydd ynglŷn â chyllid. Hefyd, ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o adolygu'r Cod Rheolaeth Ariannol.	Darparodd Llywodraeth Cymru ffigurau dangosol o'r setliad sy'n cynnwys sawl blwyddyn ar y tro yn 2021/22 ar gyfer 2023/24 a 2024/25, a byddwn yn lloio i'r arfer hwn barhau. Gwnaethom adolygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a byddwn yn parhau i'w adolygu bob blwyddyn. Mae gwaith yn y meysydd canlynol yn parhau a bydd yn cael ei gario drosodd i 2022/23: <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r Broses Gyfalaf yn llwyr a'i dogfennu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl y Grŵp Buddsoddi Strategol, a phrosesau pendant ar gyfer penderfynu, cyfrifyddu a rheoli prosiectau. • Datblygu strategaeth gyfalaf hirdymor eglur. • Monitro effaith barhaus Covid ar wasanaethau. • Datblygu Proses y Gyllideb ymhellach er mwyn cynnwys gwneud penderfyniadau ac ymgynghori hirdymor fel egwyddorion craidd. Cynnwys swm y Cronfeydd wrth Gefn Heb eu Clustnodi yn y Dangosfwrdd Corfforaethol i ategu'r rhagolygon blynyddol o ganlyniad y gyllideb.

[Capsiwn: Meysydd i'w gwella yn 2022/23 a'r camau gweithredu a gytunwyd]

Bydd y meysydd hynny sydd wedi'u nodi ar gyfer gwella yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cynnwys unrhyw faterion a godwyd yng nghynllun gweithredu'r llynedd sydd heb eu datrys yn llawn eto.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Ardystiad

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Gwelliannau Llywodraethu er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn argyhoeddedig y bydd y camau hynny'n bodloni'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Enw	Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd y Cyngor
Llofnod	
Dyddiad	

Enw	Graham Boase, Prif Weithredwr
Llofnod	
Dyddiad	

Adran 8: Geirfa

ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL - Addasiadau materol sy'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifo neu o gywiro gwallau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau neu addasiadau dro ar ôl tro i'r rhagamcanion cyfrifo yn y blynyddoedd blaenorol.

ADENILLION A DDISGWYLIR AR ASED AU PENSIWN - Mewn cynllun â buddion diffiniedig wedi ei ariannu, dyma gyfradd gyfartalog yr adenillion a ddisgwylir yn ystod gweddill oes y rhwymedigaeth sy'n berthynol i'r asedau gwirioneddol sydd wedi eu dal gan y cynllun. Mae'n cynnwys incwm a newidiadau i werth teg ond mae'n net o dreuliau'r cynllun.

AMHARIAD - Gostyngiad yng ngwerth ased anghyfredol nes bod yn is na'r swm sydd i'w gario ar y fantolen. Gall amhariad fod o ganlyniad i dreuliant budd economaidd (amhariad budd economaidd) neu gwmp cyffredinol mewn prisiau.

AMORTEIDDIAD - Dileu dyled yn raddol, megis benthyciad, trwy wneud taliadau rheolaidd dros gyfnod penodedig o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i gyfarch y prifswm a'r llog.

ARCHWILIO CYFRIFON - Adolygiad annibynnol o faterion ariannol yr Awdurdod.

ARDRETHI ANNOMESTIG - Ardoll ar fusnesau yw Ardreth Annomestig, sy'n seiliedig ar gyfradd genedlaethol yn y bunt, a osodwyd gan y llywodraeth a'i lluosï â gwerth trethiannol asesedig yr eiddo y maent yn ei feddiannu. Fe'i cesglir gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna caiff ei hailddosbarthu i gefnogi costau gwasanaethau.

ARIAN PAROD - Yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuron ar gais.

ARIANNU CYFALAF - Cyllid y cafwyd gafael arno i dalu am wariant cyfalaf. Mae amryfal ffyrdd o ariannu gwariant cyfalaf gan gynnwys benthycia, prydlesu, ariannu refeniw uniongyrchol, derbynion cyfalaf y gellir eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

ASED - Eitem y mae iddi werth ariannol i'r awdurdod. Caiff asedau eu dosbarthu naill yn rhai cyfredol neu'n rhai anghyfredol.

- Bydd ased cyfredol yn cael ei defnyddio neu'n peidio â bod o unrhyw werth materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Bydd ased anghyfredol o fudd i'r Awdurdod ac i'r gwasanaeth y mae'n ei wasanaethu am gyfnod sy'n hwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol e.e. adeilad ysgol, neu'n anniriaethol, e.e. trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol.

ASED DIGWYDDIADOL - Ased tebygol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol yw ased digwyddiadol, na ellir cadarnhau ei fodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

ASEDAU ANNIRIAETHOL - Ased anariannol adnabyddadwy heb iddo unrhyw sylwedd ffisegol yw ased anniriaethol. Yr asedau anniriaethol y deuir o hyd iddynt amlaf o fewn awdurdodau lleol yw meddalwedd gyfrifiadurol.

ASEDAU CYMUNEDOL - Asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu dal ei afael ynddynt am yr hir dymor, nad oes iddynt unrhyw oes ddefnyddiol benodadwy a gallai hynny gyfyngu ar sut y gellir eu gwaredu. Esiamplau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

ASEDAU ISADEILEDD - Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, na ellir ond adfer gwariant arnynt trwy wneud defnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Mae priffyrdd, llwybrau a phontydd yn enghreifftiau.

BENTHYCA DROS DRO - Arian sy'n cael ei fenthyg am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCIAD MEDDAL - Benthyciad a wnaed yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd y farchnad, fel arfer oherwydd rhesymau polisi. Bydd benthyciadau o'r fath yn aml yn cael eu rhoi i unigolion neu sefydliadau y mae'r Cyngor yn credu sy'n dod â budd i'r boblogaeth leol.

BUDD-DALIADAU TAI - System o gymorth ariannol i unigolion tuag at rai costau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau ac y derbynnir cymhorthdal ar ei gyfer gan Lywodraeth Ganolog.

BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU) - Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol nac adeiladol i'w dyfarnu, ac a gânt eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn yr Awdurdod megis y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddiannau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007.

BUDDIANNAU GWEITHWYR - Pob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan y Cyngor yn gyfnewid am wasanaeth a gyflawnwyd gan ei weithwyr.

BUDDION YMDDEOL - Pob mathau o ystyriaeth sy'n cael ei roi gan gyflogwr i'w cyfnewid am wasanaethau gan y gweithwyr sy'n daladwy ar ôl cwblhau'r gyflogaeth.

BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN) - Gwneir cyfrif o fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn y datganiadau ar gyfer y gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar i awdurdodau ddatgelu, fel rhan o'r datgeliadau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol, pa gyfran o asedau'r cynllun pensiwn sydd i'w priodoli sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

BUSNES GWEITHREDOL - Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi gan dybio y bydd y Cyngor yn parhau i fodoli'n weithredol yn y dyfodol rhagweladwy.

BWRDD BENTHYCA GWAITH CYHOEDDUS (PWLB) - Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n darparu benthyciadau am un flwyddyn a mwy i awdurdodau ar gyfraddau llog sydd ddim ond ychydig yn uwch na'r cyfraddau llog y gall y llywodraeth ei hun eu benthyca.

BYWYD ECONOMAIDD DEFNYDDIOL (UEL) - Y cyfnod lle bydd y Cyngor yn cael budd o ddefnyddio ased anghyfredol.

CIPFA - Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

COSTAU ADNEWYDDU DIBRISIEDIG - Dull prisio sy'n rhoi brasamcan gydnabyddedig o werth eiddo arbenigol ar y farchnad. Mae'n rhoi amcangyfrif o werth defnydd presennol y tir ar y farchnad, ynghyd â'r costau adnewyddu gros presennol ar gyfer yr adeilad a llai dirywiad materol yr ased o gymharu â'i gyflwr materol presennol.

COSTAU GWASANAETH BLAENOROL (PENSIYNAU) - Mewn cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth gweithiwr mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod presennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeol.

COSTAU GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU) - Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, sydd i'w disgwyl o ganlyniad i wasanaeth gweithwyr yn ystod y cyfnod presennol.

COSTAU LLOG (PENSIYNAU) - Mewn cynllun â buddion diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y cyfnod yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun oherwydd bod y buddion yn nes o un cyfnod at y setliad.

CREDYDWR - Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd o fewn y cyfnod cyfrifo, ond na wnaed taliad ar eu cyfer cyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH - Arian sy'n cael ei weinyddu gan yr Awdurdod ar gyfer pwrpasau fel gwobrau, elusennau, prosiectau penodol, ac ar ran plant dan oed.

CRONFEYDD WRTH GEFN - Croniant arian dros ben, diffyg ariannol a neilltuad arian dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio rhai cronfeydd cyfalaf fel y Gronfa Adbriso Wrth Gefn i dalu'r gwariant presennol.

CRONIADAU - Symiau a gânt eu cynnwys yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm a gwariant refeniw a chyfalaf a enillwyd neu a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na dderbyniwyd neu na wnaed taliad gwirioneddol ar eu cyfer erbyn 31 Mawrth.

CYFNOD CYFRIFO - Y cyfnod amser y mae a wnelo'r cyfrifon ag o, sydd fel arfer yn gyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y fantolen.

CYFRADD LLOG GWIRIONEDDOL - Dyma'r gyfradd llog sydd ei hangen i ddisgowntio amcangyfrif y llif yr arian prifswm a'r llog yn ystod oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol er mwyn bod yn hafal â swm y gydnabyddiaeth gychwynnol.

CYFRIF INCWM A GWARIANT - Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gostau net y flwyddyn ar gyfer y swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, ac sy'n dangos sut mae'r costau hynny wedi cael eu hariannu o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT) - Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys gwariant ac incwm sy'n deillio o'r ddarpariaeth tai a gynigir gan yr Awdurdod.

CYLLIDEB - Y refeniw net a'r gwariant cyfalaf rhagweladwy dros y cyfnod cyfrifo.

CYMHORTHDAL NEGYDDOL - Pe bai'r Cyfrif Cymhorthdal Refeniw Tai yn cynhyrchu canlyniad, sy'n tybio fod incwm y Cyngor yn uwch na'i wariant, byddai sefyllfa o 'Gymhorthdal Negyddol' yn digwydd. Pe digwydd hynny byddai'n rhaid i'r awdurdod dalu swm sy'n gyfwerth â'r gwarged tybiannol, o'i Gyfrif Refeniw Tai i'r Llywodraeth.

CYNLLUN ARIANNU PREIFAT(PFI) - Yn nodweddiadol, mae trefniadau PFI yn cynnwys endid sector preifat yn adeiladu neu'n gwella eiddo sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, a gweithredu a chynnal yr eiddo hwnnw am gyfnod amser penodol ar ran y corff sector cyhoeddus. Bydd y corff sector cyhoeddus yn talu am gael defnyddio'r asedau a'r gwasanaethau cysylltiedig dros gyfnod y trefniant trwy daliad unedol.

CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION DIFFINIEDIG - Cynlluniau pensiwn y mae'r buddion sy'n cael eu derbyn gan eu haelodau yn annibynnol ar y cyfraniadau a delir a heb fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r hyn sy'n cael ei fuddsoddi yn y cynllun.

CYWERTHOEDD ARIAN PAROD - Buddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod ac sy'n amodol ar risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth.

DARPARIAETH - Swm sy'n cael ei roi i un ochr yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n debygol neu'n debygol iawn o ddigwydd, ond mae'r symiau neu'r dyddiadau y byddant yn digwydd yn ansicr.

DERBYNIADAU CYFALAF - Yr incwm a wneir wrth waredu tir neu asedau anghyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfran o dderbyniadau cyfalaf Tai i ariannu gwariant cyfalaf newydd, yn rhwym wrth reolau sydd wedi eu hamlinellu gan y Llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw ar wahân i Wariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud.

DIBRISIANT - Mesuriad o gostau traul, defnydd neu ostyngiad arall yn oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol yr Awdurdod yn ystod y cyfnod cyfrifo, p'un ai bod hynny oherwydd defnydd, treigl amser, neu ddarfodiad o ganlyniad i newidiadau technolegol neu newidiadau eraill.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN - Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

DULL RHAGAMCANU UNEDAU - Dull priso buddion cronedig lle bydd y rhwymedigaethau cynllun pensiwn yn darparu ar gyfer rhagamcan enillion. Y buddion cronedig yw'r buddion ar gyfer gwasanaeth hyd at bwynt penodol mewn amser, dim ots a oes hawliau personol neu beidio.

DYLED - Dyled yw pan fo taliad yn ddyledus gan y Cyngor i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae dyled gyfredol yn swm a ddaw'n daladwy neu y gellid ei alw i mewn o fewn y cyfnod cyfrifo nesaf, e.e. credydwy'r neu ddyled arian parod.

- Dyled ohiriedig yw swm sydd, trwy drefniant, yn daladwy y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf ar ryw adeg yn y dyfodol, neu sydd i'w ad-dalu gyda swm blynyddol dros gyfnod o amser.

DYLED DDIGWYDDIADOL - Gall dyled ddigwyddiadol fod naill ai:

- yn rhwymedigaeth ddichonadwy sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol, na ellir cadarnhau eu bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod, neu

- yn rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol pan nad yw'n debygol fod angen trosglwyddo buddiannau economaidd, neu pan na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

DYLEDWR - Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd o fewn y cyfnod cyfrifo, ond na wnaed taliad ar eu cyfer cyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

EIDDO BUDDSODDI - Eiddo sy'n cael ei ddal yn unig er mwyn cael enillion rhenti neu adbrisiant cyfalaf neu'r ddau.

EITEMAU ANGHYFFREDIN - Eitemau o bwys, sydd â graddfa fawr o abnormaledd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion oddi allan i weithgarwch arferol yr awdurdod nad oed disgwyl iddynt ddigwydd eto. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, nac yn cynnwys eitemau o gyfnod blaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â chyfnod blaenorol.

EITEMAU EITHRIADOL - Eitemau o bwys sy'n deillio o faterion neu drafodion sydd o fewn gweithgareddau arferol yr Awdurdod y mae angen eu datgelu ar wahân yn rhinwedd eu maint neu eu nifer er mwyn rhoi cynrychiolaeth deg o'r cyfrifon.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD - Mewn cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y newidiadau mewn gwargedau neu ddiffygion actiwaraidd sy'n digwydd oherwydd:

- nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profi enillion a cholledion); neu

- fod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi amrywio

GRANT CYNNAL REFENIW - Grant a dalwyd gan y Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, sy'n cyfrannu at gost cyffredinol eu gwasanaethau.

GRANTIAU LLYWODRAETH - Grantiau gan y llywodraeth tuag at wariant refeniw neu gyfalaf yn gyfnewid am gydymffurfiaeth yn y gorffennol neu yn y dyfodol ag amodau penodol yn ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gallant fod yn cefnogi gwariant refeniw neu gyfalaf (yn y drefn honno) yr Awdurdod yn gyffredinol.

GWAITH AR Y GWEILL - Cost gwaith a wnaed ar brosiect anghyflawn ar ddyddiad y fantolen, ac y dylid rhoi cyfrif amdano.

GWARIANT CYFALAF - Gwariant wrth gaffael ased anghyfredol, a fydd yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo presennol neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased anghyfredol bresennol, yn hytrach na dim ond cynnal y gwerth hwnnw'n unig.

GWARIANT REFENIW - Gwariant darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF TRWY STATUD (REFCUS) - Gwariant y gellir ei ddsbarthu fel arian cyfalaf i bwrpasau ariannu pan nad yw'n arwain at nodi gwariant ar y Fantolen fel ased anghyfredol. Mae hyn i'w alluogi i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf. Enghreifftiau o REFCUS yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI - Caffael a gwaredu asedau tymor hir a buddsoddiadau eraill nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn cywerthoedd arian parod.

GWEITHGAREDDAU CYLLIDO - Gweithgareddau sy'n arwain at newidiadau ym maint ac yng nghyfansoddiad y prifswm a dderbyniwyd neu a ad-delir i ddarparwyd cyllid allanol.

GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL - Gweithgareddau'r Cyngor nad ydynt yn weithgareddau buddsoddi nac ariannu.

GWERTH DEFNYDD PRESENNOL - Y swm yr amcangyfrifir y dylai eiddo gyfnewid amdano ar ddyddiad prisiad rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn gwerthiant hyd braich, yn dilyn ei farchnata'n briodol fel y bo'r partïon wedi gweithredu yn wybodus, yn ddarbodus a heb eu gorfodi. Tybir y rhoir meddiant, yn wag, i'r prynwr o bob rhan o'r eiddo y mae eu hangen ar y busnes gan ddiystyru unrhyw ddefnydd amgen posibl ac unrhyw nodweddion eraill o'r eiddo a fyddai'n achosi i'w werth ar y farchnad fod yn wahanol i'r hyn y byddai ei angen i gymryd lle'r potensial gwasanaeth gweddillol am y costau lleiaf.

GWERTH GWEDDILLIOL - Gwerth gwireddadwy net yr ased ar ddiwedd ei fywyd defnyddiol.

GWERTH LLYFR NET - Y swm a nodir ar gyfer asedau anghyfredol yn y fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu eu gwerth presennol llai y symiau cronnus a roddir ar gyfer dibrisiant ac amhariad.

GWERTH TEG - Gwerth teg unrhyw ased yw'r swm y gellir ei gyfnewid amdano, neu setliad dyled, rhwng partïon gwybodus, parod mewn gwerthiant hyd braich.

GWERTH TRETADWY - Gwerth rhent tybiedig blynyddol yr eiddo, sy'n cael ei ddefnyddio i bwrpasau ardrethi annomestig.

INCWM - Symiau y mae'r Cyngor yn eu derbyn neu'n disgwyl eu derbyn o unrhyw ffynhonnell, gan gynnwys ffioedd, gwerthiannau a grantiau.

ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - Yr isafswm y mae'n rhaid codi ar ei gyfer yn y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn gallu darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill sydd wedi cael eu benthycu gan y Cyngor.

LLIFOEDD ARIAN - Mewnllif ac all-lif arian parod a chywerthoedd arian parod.

MATEROLIAETH - Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau, y byddai disgwyl iddynt, pe caent eu gadael allan neu eu camddyfyngu, arwain at lurgunio'r datganiadau ariannol a chamarwain defnyddwyr y cyfrifon maes o law.

OFFERYN ARIANNOL - Unrhyw gontract sy'n peri bod ased ariannol gan y naill endid ac yn peri bod dyled ariannol neu offeryn ecwiti gan y llall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol a dyledion ariannol, o dderbyniadwyon masnachu (anfonebau dyledus) a thaladwyon masnachu (anfonebau dyladwy) syml hyd at ddeilliadau cymhleth a deilliadau sefydlog.

PARTIÖN CYSYLLTIEDIG - Credir bod partiön yn gysylltiedig os oes gan un parti y gallu i reoli'r parti arall neu ddyllanwadu yn sylweddol ar y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

PARTNERIAETHAU PREIFAT CYHOEDDUS (PPC) - Menter ar y cyd lle bydd partner sector preifat yn cytuno i roi gwasanaethau i, neu ar ran sefydliad sector cyhoeddus. Mae Cynllun Ariannu Preifat yn fath o PPC.

POLISIÖU CYFRIFO - Yr egwyddorion, y seiliau, y confensiynau, y rheolau a'r arferion penodol a gymhwysir gan y Cyngor wrth baratoi a chyflwyno ei ddatganiadau ariannol.

PRAESEPT - Yr ardoll y bydd awdurdodau praeseptio yn ei chodi ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm gan drethdalwyr y cyngor ar eu rhan.

PRYDLES - Cytundeb pan fo'r prydleswr yn rhoi'r hawl i'r prydlesai ddefnyddio ased am gyfnod, yn gyfnewid am daliad neu gyfres o daliadau.

PRYDLES ARIANNOL - Prydles sy'n trosglwyddo bron y cyfan o'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar ased i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL - Prydles pan fo perchnogaeth yr ased anghyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

RHAGLEN GYFALAF - Y cynlluniau cyfalaf y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu mewn cyfnod penodedig.

RHESTRAU EIDDO - Yr eitemau hynny o ddeunyddiau crai ac o gyflenwadau y mae'r Awdurdod wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal ganddynt yn y disgwyl y bydd iddynt ddefnydd yn y dyfodol.

RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN - Rhwymedigaethau cynllun pensiwn â buddion diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl dyddiad y prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun sydd wedi eu mesur yn defnyddio'r dull rhagamcanu unedau yn adlewyrchu'r buddiannau y mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at ddyddiad y prisiad.

TÂL - Bydd pob swm sy'n cael ei dalu neu ei dderbyn gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (os yw'r symiau hynny yn berthnasol i dreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau sy'n cael eu derbyn, ac eithrio mewn arian parod.

TRAFODION PARTIÖN CYSYLLTIEDIG - Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu unrhyw drafodion pwysig rhwng yr Awdurdod a phartiön cysylltiedig i sicrhau bod budd-ddeiliaid yn ymwybodol pan fydd y trafodion hyn yn digwydd a swm a goblygiadau hynny.

TREFNIADAU ASIANTAETHOL - Trefniant rhwng dau sefydliad pan fydd un yn gweithredu fel asiant, yn casglu arian ar ran y llall, ac yna'n talu'r arian iddo.. Enghraifft o hyn yw casgliadau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel yr asiant bilio ar ran llywodraeth ganolog, yn casglu arian gan dreth dalwyr ar ran llywodraeth ganolog ac yna talu'r arian hwnnw yn ei flaen iddynt.

TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH - Mae cytundeb consesiwn gwasanaeth yn gyffredinol yn golygu y bydd y rhoddwr (corff sector cyhoeddus fel arfer) yn cyfleu i'r gweithredwr (endid sector preifat fel arfer), am gyfnod y consesiwn, yr hawl i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i gyfleusterau economaidd a chymdeithasol mawr.

Y FANTOLEN - Datganiad ynglŷn ag asedau, dyledion a chronfeydd wrth gefn a gofnodwyd ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo.